



13.3.2019

At sylw'r Arolygaeth Gynllunio,

Parthed : Proses Gynllunio Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd, Ynys Môn

Byddwch yn ymwybodol fod partneriaid sy'n rhan o Fforwm Iaith Ynys Môn wedi llunio Datganiad o Dir Cyffredin gyda Pŵer Niwclear Horizon. Mae'r partneriaid hynny yn cynnwys, Menter Iaith Môn, Menter Môn, Medrwn Môn, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, Unllais, Canolfan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ac Mudiad Meithrin. Mae paragraff 2.1.3 o'r Datganiad o Dir Cyffredin yn cyfeirio at sefydlu'r bartneriaeth hon er mwyn gallu ymateb a llunio'r Datganiad gyda'r Datblygwr, yn ogystal â paragraff 2.1.4 sy'n manylu ar benderfyniad Cymdeithas yr Iaith a Cyngor Sir Ynys Môn i beidio â chyfrannu i'r broses hon;

Mae Fforwm Iaith Môn yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau eraill, ond nid yw'r rhain wedi cyfrannu at y Datganiad hwn. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi dweud nad yw'n dymuno cyfrannu at y Datganiad Tir Cyffredin gyda Horizon, felly nid yw'r Datganiad hwn yn cynrychioli safbwyntiau Cymdeithas yr Iaith. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gynrychioli ar Fforwm Iaith Môn hefyd, ond mae wedi dewis peidio â chyfrannu at y Datganiad Tir Cyffredin hwn, gan fod Horizon wedi datblygu Datganiad ar wahân â'r Cyngor.¹

Cyflwynir y llythyr hwn ar ran y partneriaid hynny sydd wedi bod ynghlwm â'r broses, gan adnabod sawl pryder ynghylch ag ymdriniaeth y broses tuag at y Gymraeg.

Wele isod, sylwadau'r partneriaid;

1. Hoffwn ddiolch i'r Arolygaeth am dynnu sylw'r Datblygwyr tuag at y Fforwm fel corff sy'n cynrychioli'r Gymraeg yn ystod y Cyfarfod Rhagweiniol ar yr 22ain o Hydref, a hynny er diben llunio Datganiad o Dir Cyffredin.

Rydym yn ddiolchgar i Joanna Dowling, ar ran yr Arolygaeth, am amlygu'r ffaith y bu i'r Arolygaeth eisoes dynnu sylw'r Datblygwr tuag at gyrrff perthnasol fel y Fforwm Iaith, Menter Iaith Môn a Chymdeithas yr Iaith ond bod yr awgrymiadau hynny wedi eu methu gan y Datblygwr². Cydnabodd y Datblygwr fod y cyrff hyn, ac yn enwedig y Fforwm Iaith a Chymdeithas yr Iaith, wedi cael eu hepgor o'r rhestr o ganlyniad i bryderon ynglŷn â ph'un a ellid cytuno ar Ddatganiadau Tir Cyffredin o fewn y raddfa amser a roddwyd gan y Panel.

¹ Datganiad o Dir Cyffredin : FFIM + PNH [https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-003041-27%20Statement%20of%20Common%20Ground%20between%20Horizon%20Nuclear%20Power%20Wylfa%20Limited%20and%20Fforwm%20Iaith%20M%20C3%B4n%20\(FfIM\)%20\(Welsh%20Translation\).pdf](https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-003041-27%20Statement%20of%20Common%20Ground%20between%20Horizon%20Nuclear%20Power%20Wylfa%20Limited%20and%20Fforwm%20Iaith%20M%20C3%B4n%20(FfIM)%20(Welsh%20Translation).pdf)

² Nodyn o'r Cyfarfod Rhagweiniol : <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-002251->

Teimla'r Fforwm mai ein penderfyniad ni fel partneriad y Fforwm ddylai hyn fod, a dylai'r gwahoddiad i fod yn rhan o'r broses wedi ein cyrraedd ymhell o flaen amser er mwyn sicrhau chwarae teg i'r Gymraeg, fel maes thematig, yn union fel unrhyw faes thematig arall ble roedd gofyn am Ddatganiad o Dir Cyffredin. Gyda mwy o amser a manylion rhagflaen, tybiwn y byddai modd canfod mwy o Dir Cyffredin rhyngom.

Yn syml, mae'n bryder na ystyriwyd y Fforwm laith, fel fforwm o arbenigwyr ieithyddol lleol yn y lle cyntaf, ac mae drwy annog gan yr Arolygaeth yn unig daeth cyfle i ffurfio'r Datganiad o Dir Cyffredin gyda'r partneriaid.

2. Sylwer na chafodd trwch y testun a luniwyd drwy drafodaeth a gwaith hirfaith gan bartneriaid Fforwm laith Ynys Môn ei gynnwys yn rhan o ddrafft cyntaf y Datganiad o Dir Cyffredin. Amlygir y pwyntiau a'r manylion a fethir (mwy na hanner y testun) mewn dogfen ar wahân i'r llythyr hwn (atodiad). Mae'r hyn gafodd ei anwybyddu wedi ei uwchleuo yn felyn, ac amlygir hefyd yn y coch ble mae Horizon wedi camddehongli pwynt gan y Fforwm. Yn amlwg, mae potensial fan hyn, i Ddatblygwyr gamarwain yr Arolygaeth os nad yw'r cyfieithiad yn cael ei gyfieithu'n llythrennol, ond yn hytrach, cael ei gyfleu gyda phwyntiau dethol sy'n gadarnhaol, ac anwybyddu'r pwyntiau mwy beirniadol. Mae'n bryder hefyd fod yr holl ymchwil a thystiolaeth ysgolheigaidd a ddefnyddiwyd i gefnogi ein safbwyntiau wedi eu hanwybyddu, a drwy graffu yn unig, mewn amserlen dynn, canfuwyd hyn.
3. Er mwyn gallu rhoi sylwadau cymwys fel rhan o'r broses, teimlwn fel partneriaid y Fforwm nad oedd y wybodaeth gyfredol ar gael i ni. Sylwch yn y Datganiad o Dir Cyffredin fod y Datblygwr yn cyfeirio'n aml at fersiwn diweddaraf y Cytundeb 106, ond doedd y ddogfen hon ddim ar gael i ni nes oedd hi'n ddogfen gyhoeddus, a hynny wedi i ni gyflwyno'n sylwadau. Teimlad partneriaid y Fforwm yw dylid rhannu'r dogfennau addas gyda ni fel rhan o'r broses, er budd y Fforwm, y Datblygwr a'r Gymraeg. Gofynnwn i'r Arolygaeth am gadarnhâd ynghylch cyfrifoldeb rhannu'r dogfennau.
4. Mae'n bryder mai yn y Saesneg yn unig oedd ymateb y Datblygwyr i ymatebion cychwynnol y Fforwm. Deallwn fod hyn oherwydd diffyg amser, ond o gael y cynllunio, megis pwynt 1 yn gywir, byddai modd goresgyn hyn.
5. Hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith nad yw gwefan yr Arolygaeth Gynllunio yn gweithio yn effeithiol yn ddwyieithog, er enghraifft, wrth chwilio am 'Cymraeg' fel term ar y wefan Gymraeg. Byddai hyn wedi bod o gymorth wrth chwilio am y dogfennau perthnasol gan fod 'Cymraeg' fel term yn golygu'r iaith yn unig, ond 'Welsh' yn hytrach yn golygu llawer mwy na'r Gymraeg fel iaith, Welsh Government yn un enghraifft. Mewn egwyddor, dylai'r un drefn chwilio ddigidol 'search', fod yn weithredol yn y Gymraeg, ag yw yn y Saesneg. Mae dogfen wedi atodi yn amlygu'r diffyg.

I gloi, mae'r hyn sydd wedi ei amlygu gennym yn peri gofid am hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn y broses gynllunio. Mae yma gwestiynau sydd o bwys strategol a hoffwn rannu eich ymatebion i'r pryderon hyn gyda'n partneriaid, er diben cynllunio ieithyddol cenedlaethol. Drwy hyn bydd modd i ni gydweithio i sicrhau cyfundrefn gynllunio deg, effeithiol ac amserol;

- ar ran ymateb yn ddwyieithog i'r broses

- ac i gynnwys ystyriaeth o effaith Datblygiad arfaethedig ar yr Iaith Gymraeg, a'r camau lliniaru priodol drwy lunio Datganiad o Dir Cyffredin.

Ifor Gruffydd

Cadeirydd Interim Fforwm Iaith Ynys Môn ar ran y mudiadau

Menter Iaith Môn, Menter Môn, Medrwn Môn, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, Unllais, Canolfan Dysgu Gymraeg Gogledd Orllewin ac Mudiad Meithrin.

Dogfen yn cyfuno sylwadau Fforwm Iaith Môn a chyflwyniad yr ymgynghorwyr/Horizon o sylwadau FfIM. Sylwer fod testun a luniwyd drwy drafodaeth a gwaith cyfuno hirfaith gan FfIM ddim yn ymddangos yn y testun mae Horizon yn defnyddio i gyflwyno safbwyntiau'r Fforwm. Amlygir y pwyntiau a'r manylion a fethir (mwy na hanner y testun) gyda uwcholeuo **melyn**. Amlygir hefyd yn y **coch** ble mae Horizon yn camddehongli pwynt gan y Fforwm, ac yn y **gwyrdd** mae ychwanegiad gennym i gyfleu ystyr yn well.

Mae cwestiynau mawr felly am y broses. Mewn ymgynghoriad am effaith a champau lliniaru'r datblygiad ar yr iaith Gymraeg, wrth ymateb yn y Gymraeg gwneir cam â'r Fforwm Iaith a'i haelodau gan na fu i'w sylwadau ystyrlon gael eu cynrychioli yn gywir yn y cyfieithiad/crynodeb ynghlwm. I ddangos cyfle cyfartal roedd angen i HNP un ai ymateb yn y Gymraeg neu gyfieithu dogfen y Fforwm Iaith yn ei gyfanrwydd i'r Saesneg er mwyn cael ystyriaeth deg i safbwyntiau'r Fforwm. Mae'r broses a'r diffygion hyn yn amlygu amarch y broses gynllunio at yr iaith Gymraeg a difrifoldeb ein hymgais fel Fforwm i sicrhau bydd cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg a'u cynrychiolwyr ar yr ynys.

This document combines the Welsh language forum, Fforwm Iaith Mon, and the consultant's/HNP's presentation of the forum's response. Note that points raised by FfIM, which were formulated through lengthy meetings and consensus documentation, do not appear in the text HNP is presenting of FfIM's standpoint. The points missing (more than half the text) is indicated with **yellow** highlight. Points which seem to have been misinterpreted by HNP are highlighted in **red** with additions in **green** to clarify meaning.

There are therefore significant concerns about the process. Even in a consultation to do with the effect and mitigation measures of the development on the Welsh language, by responding in Welsh Fforwm Iaith Mon and its members have been dealt with unfairly, as their view were not accurately represented in the following translation/synopsis. To show equity to Welsh, HNP should have either responded to the document in Welsh or provided an accurate and complete translation in English, so that all Fforwm Iaith Mon's points could be fairly considered. This process and its shortfalls as highlighted the disrespect in the planning process to the Welsh language and the serious need for Fforwm Iaith Mon to secure equal opportunities for Welsh speakers and their representatives on this island.

Datganiad o Dir Cyffredin rhwng Fforwm Iaith Ynys Môn a Pŵer Niwclear Horizon

Cyflwynir y sylwadau hyn ar ran partneriaid Fforwm Iaith Ynys Môn sy'n cynnwys:

Menter Iaith Môn, Menter Môn, Medrwn Môn, Urdd Ynys Môn, Clwb Ffermwyr Ifanc Môn, Unllais, Canolfan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin a Mudiad Meithrin

Nid yw'r sylwadau hyn yn adlewyrchu barn **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**. Mae'r Gymdeithas wedi penderfynu peidio â rhoi mewnbwn i'r broses hon. Mae datganiad y Gymdeithas dros beidio cyfrannu i'r Datganiad o Dir Cyffredin yn atodiad i'r ddogfen hon ¹. Ni ddylai PNH ddatgan fod y Datganiad o Dir Cyffredin hwn yn ddatganiad o dir cyffredin gyda Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Mae Fforwm Iaith Ynys Môn yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau gerbron Pŵer Niwclear Horizon er mwyn llunio Datganiad o Dir Cyffredin gyda phartneriaid ieithyddol yr Ynys. Gweler isod, gyflwyno sylwadau gerbron 24 o fesurau lluniaru sy'n rhan o Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant PNH sy'n cael ei gefnogi gan ymchwil ac astudiaethau, yn ogystal â datganiad cyffredinol gan y Fforwm.

Datganiad Cyffredinol:

1. Mae'r partneriaid uchod wedi ymrwymo i Strategaeth Iaith Ynys Môn² o gynyddu canran o siaradwyr Cymraeg Môn i 60.1% erbyn Cyfrifiad 2021. Gan ddechrau o sefyllfa o 57% o siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiad 2011, a strategaeth lywodraethol a sirol parhaus wedi ei gyplysu â buddsoddiad ariannol cyson er mwyn cyrraedd y targed o 60.1%, rhaid i unrhyw fesur lliniaru gydfynd ag ymrwymadau'r Fforwm i gyflawni'r targedau hyn.

Yn sgil effaith datblygiad Wylfa Newydd, mae'r her o gynyddu'r canran hwn heibio 2021 yn dwysáu. Fel man cychwyn, fodd bynnag, targed elfennol unrhyw raglen o fesurau lliniaru effaith iaith gan ddatblygwyr yw sicrhau fod Môn yn cyrraedd y targed o 60.1% o siaradwyr Cymraeg. Ni theimlwn fod y mesurau isod yn adlewyrchu targedau ieithyddol Ynys Môn.

2. Nodwn hefyd fod PNH bellach yn chwilio am fuddsoddiad arian cyhoeddus Llywodraeth Prydain ar gyfer y cynllun er mwyn cyflenwi anghenion ynni'r Deyrnas Gyfunol, ac ni ddylai cynllun a wireddir yn rhannol drwy gefnogaeth ariannol y DG fod yn tanseilio blynyddoedd helaeth o fuddsoddiad yn y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru drwy Menter Môn, Menter Iaith Môn, Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg, Medrwn Môn, yr Urdd, Clwb Ffermwyr Ifanc ac Unllais.
3. Teimlad cryf ac unfrydol aelodau'r Fforwm oedd fod y **Disgrifiad o'r Mesur** mewn perthynas â'r 24 mesur lliniaru yn gyfres o ddatganiadau dyheadol. Tra y croesawyd yr egwyddor a nodwyd mewn rhai achosion, roedd barn glir ymysg yr aelodau fod angen llawer iawn mwy o fanylder na'r hyn a gynigiwyd a bod angen **Strategaeth fesuradwy** (SMART), sydd wedi ei meintioli o ran effaith, amser ac adnoddau, a bod targedau clir wedi'u nodi.

¹ [Datganiad Cymdeithas yr Iaith](#)

² <https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/g/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

4. Ochr yn ochr â hyn, teimlwyd nad yw'r dogfennau a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cynnig data digon manwl, o bell ffordd, ar yr effaith ar gymunedau Ynys Môn e.e. ni cheir dadansoddiad o effaith mewnfudo plant oed ysgol, neu'r effaith ar gymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan > 70% a >50% o'r boblogaeth. Heb hyn, mae'n amhosibl cyflwyno a gweithredu camau lliniaru ystyrllon ac effeithiol. Barn y Fforwm oedd y dylid cyflwyno data meintiol mewn 'scenarios' gwahanol e.e. 'scenario' waethaf, canolog a gorau. Mae angen cynnwys dadansoddiad gwyddonol o'r fath yn flynyddol yn ystod y cyfnod adeiladu, ac yn ystod y cyfnod pan fyddai'r orsaf yn weithredol. Yn allweddol hefyd, nid yw'r mesurau yn mesur effaith y camau lliniaru, ac fel rhan o strategaeth byddai'n rhaid adolygu hyn yn rheolaidd.
5. Mae nifer o'r mesurau yn ymwneud â materion staffio. Mynegwyd barn glir gan aelodau'r Fforwm fod angen i PNH Iunio **Strategaeth Sgiliau Iaith** gynhwysfawr a fydd yn manylu'n briodol ar yr holl faterion hyn mewn ffordd strategol a mesuradwy.
6. Er mwyn cyflawni'r gwaith strategol hwn sydd yn cynnwys gwaith monitro, craffu a gweithredu ar lefel gymunedol aml-haenog ac eang, yn ein barn ni bydd yn angenrheidiol sicrhau adnoddau dynol digonol. Nid yw'r mesurau, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnig hynny.
7. Er mwyn cyflawni'r awgrymiadau hyn, mae'r Fforwm yn awgrymu'n gryf bod arbenigedd cynllunwyr **Iaith** yn cael ei sicrhau i gynorthwyo gyda'r gwaith. Aneglur hefyd yw'r sefyllfa sy'n wynebu mudiadau bach yr Ynys yng ngoleuni'r lliniaru. Oes camau lliniaru tu hwnt i gytundeb 106? Ac os nad oes, beth fyddai'r broses ymgeisio ar gyfer buddsoddiad i fudiadau llai fydd yn cael eu heffeithio yn sylweddol o ddatblygiad Wylfa Newydd? Fydd Horizon yn gallu buddsoddi tu hwnt i gytundeb 106 – pan mae'n ymwneud â lliniaru Iaith?
8. Mae'r Fforwm yn cydnabod fod rhai effeithiau cadarnhaol i'w hadnabod hefyd, ond heb ymrwymadau pendant gall danseilio a gwrthwneud gwaith a buddsoddiadau Mentrau, elusennau a mudiadau ym Môn dros y degawdau.

Gyda hyn yn ystyriaeth ganolog i'r drafodaeth, manylwyd ar yr hyn a ganlyn.

Camau Lliniaru	Sylwadau Fforwm Iaith Strategol Môn	
<p>1. Bydd Horizon yn penodi Cydlynnydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd.</p>	<p>1. Mae'r Fforwm yn croesawu'r swydd – ond nid oes yma ddigon o eglurdeb:</p> <p>2. Strategaeth a thargedau: Ni fedrwn ymateb yn llawn i'r Strategaeth gan fod diffyg manylion, geiriau amwys a diffyg ymroddiad pendant i raglen / terfynau amser. Beth yw'r targedau mesuradwy sydd i'w chyflawni gan y Cydlynnydd?</p> <p>3. Swydd ddisgrifiad: Nid oes swydd ddisgrifiad i esbonio'r agweddau o gyfrifoldeb mewnol, allanol, cydbwysedd a gwrthrychedd, cydberthynas ag ieithoedd eraill.</p> <p>i. Mewnol: Beth fydd statws a dylanwad y swyddog yma? Sut mae'n disgyn o fewn strwythur y cwmni?</p> <p>ii. Allanol: Beth yw dylanwad yr unigolyn ar y Grŵp Llywio? Beth yw dylanwad yr unigolyn ar y ddogfen gyfreithiol 106? Beth fyddai dylanwad yr unigolyn ar wariant y 106 pan fydd hwnnw wedi ei drosglwyddo i ddwylo CSYM? Beth yw rôl yr unigolyn hwn yn y grŵp rheoli - y grŵp sy'n monitro'r Polisi Iaith?</p> <p>iii. Cydbwysedd: Gan gofio mai cyflogai'r datblygwr fydd y swydd-ddeilydd, beth fydd y cydbwysedd o ran cyflawni anghenion y cyflogwr a chynrychioli anghenion ieithyddol y gymuned? A oes pellter rhwng y swydd a Horizon a sut fydd hyn yn cael ei reoli? A all y swyddog weithio fel 'comisiynydd' er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael chwarae teg?</p> <p>iv. Cydberthynas ag ieithoedd eraill: Yn ogystal deallwn bydd nifer o weithwyr a'u teuluoedd heb Gymraeg na Saesneg iaith gyntaf, felly a fydd swyddog arall i sicrhau ateb anghenion cyfathrebu gweithwyr heb y Gymraeg a'r Saesneg? A bydd cydnabyddiaeth i flaenoriaethu cymathu mewn gymuned Gymraeg neu a'i y Saesneg yn unig fydd y flaenoriaeth i'r cyflogwyr yn y sefyllfaoedd hyn?</p> <p>4. Capasiti. A fydd y cydlynnydd yn arwain tîm o staff? Nid yw'n bosib i un swyddog lliniaru maint a sylwedd effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Nid yw'n realistig fod yr un swyddog hefyd yn cynllunio a chynnal y 9,000 o weithwyr i gymathu yn ein cymunedau Cymraeg. Nid yw un swyddog yn cynnig capasiti i fonitro a chefnogi effaith mewnfudo hyd at 9000 o weithwyr, yn enwedig o ystyried canrannau (B.4.22 WLIA Technegol) sy'n dadwneud blynyddoedd o fuddsoddiad amser ac ariannol gan fudiadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Ynys Môn.</p> <p>5. Mae Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn yn ateb i Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn, "Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001. O gydweithio</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome the appointment of a WLCC.</p> <p>2. There is insufficient detail and firm commitments to a programme of work and timeframe within the WLCMES in order to enable Fforwm Iaith Môn to fully respond to its content as a strategy and in relation to targets.</p> <p>3. There is no job description to explain the internal and external responsibilities of the WLCC and the relationship with other languages.</p> <p>4. There is concern about the capacity of the WLCC to be able to mitigate the effects of the Wylfa Newydd DCO Project on the Welsh language.</p> <p>5. Due to the effects of the Wylfa Newydd DCO Project on the percentage of Welsh speakers, there is a need for a strategy, structure and targets based on mitigating effects on the percentage of Welsh speakers in order to be able to monitor the effectiveness of the WLCC as a mitigation measure.</p> <p>6. There is a need for greater evidence to identify the extent and substance of the WLCC's job and to measure the effectiveness of the measure.</p>

	<p>a chymryd camau ymarferol, y mae hynny'n gyraeddadwy.”³ Erys targed y Fforwm o gynyddu canran siaradwyr Cymraeg ond yn sgil effaith datblygiad Wylfa Newydd, mae graddfa'r dasg yn enfawr, gan fod asesiad y cwmni ei hun yn dangos (B.4.22 WLIA Technegol):</p> <ol style="list-style-type: none"> gostyngiad o 17.2 pwynt canran yng Ngogledd Ynys Môn; gostyngiad o 2.0 pwynt canran yng Ngorllewin Ynys Môn; gostyngiad o 1.5 pwynt canran yn Ne Ynys Môn; gostyngiad o 0.5 pwynt canran yn Nhir Mawr Menai <p>O ganlyniad rhaid cael strategaeth, strwythur a thargedau yn seiliedig ar liniaru effaith ar y canrannau siaradwyr er mwyn gweld effeithlonrwydd swydd fel mesur lliniaru, ac yn fwyaf arbennig, staff i wireddu hyn.</p> <p>6. Y casgliad felly yw bod angen llawer mwy o dystiolaeth i adnabod swmp a sylwedd y swydd, ac i bwysu a mesur effeithlonrwydd y swydd ac adnabyddiaeth o fylchau na all y swydd yma ei lenwi, gydag esboniad o sut fydd y datblygwr yn cyflawni'r swyddogaethau ychwanegol hyn.</p>	
<p>2. Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu.</p> <p>Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymwyseddau ac adnoddau asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon.</p> <p>Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael eu cofnodi fel rhan o'r broses recriwtio ac yn cael</p>	<ol style="list-style-type: none"> Croesawu'r 'Fframwaith Cymwyseddau ac Adnoddau Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg' a chroesawir y dymuniad am 'gymorth allanol posib' i wireddu. Nid oes dystiolaeth fod yna Strategaeth Sgiliau Iaith mewn lle. Barn y Fforwm yw y dylid rhagosod (fel default) pob swydd yn ddwyieithog. O wneud hyn mae modd wedyn adnabod swyddi o arbenigedd rhyngwladol ble na fydd y Gymraeg yn hanfodol/dymunol o ran recriwtio. Byddai hyn yn un ffordd ymarferol o adleisio cefnogaeth ysgrifenedig PNH i'r Gymraeg. O ran canran sylweddol y swyddi, o gael dwyieithrwydd yn hanfodol neu ddymunol mae modd sicrhau gweithlu sydd yn gwerthfawrogi ac yn barod i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu neu i ddysgu/godi hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg. Cyfeiriwn at arfer dda cyflogwyr mawr lleol megis Heddlu Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a CSYM ar gyfer arbenigedd yn y maes. A fyddwch yn mabwysiadu lefelau galwedigaethol megis CSYM / HGC o sgiliau Cymraeg, a all amrywio o siarad, darllen, ysgrifennu, hyder a rhuglder? Fel arall pwy fydd eich ymgynghorwyr ar lefelu sgiliau iaith? Pa bryd fydd y Fframwaith a'r Adnoddau Asesu ar gael er mwyn cyflwyno sylwadau? Pa arbenigedd allanol fydd PNH yn derbyn ar hwn? Mae'r Fforwm yn disgwyl bydd ymgynghoriad ac arweiniad swyddogol gyda Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag arfer dda?⁴ 	<ol style="list-style-type: none"> Welcome the development of a Welsh language skills competency framework and assessment tool and welcome the desire for external assistance to realise this. No evidence that there is a Welsh language skills strategy in place. Consider that all job posts (by default) should be bilingual. By ensuring that the majority of jobs would require bilingualism as essential or desirable, it would be possible to ensure a workforce which appreciate and use their Welsh language skills in the workplace, or to learn/improve their confidence to use the Welsh language. Reference to good practice by other large local employers such as North Wales Police, Bangor University, Betsi Cadwaladr University Health Board and IACC. (Fforwm 9) There is a danger that the Welsh language would be down-graded if the labour sector are the only ones which hear the Welsh language in the workplace,

³ <https://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

⁴ [http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20160308%20%20GC%20%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20\(T\).pdf](http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20160308%20%20GC%20%20Cyngor%20Recriwtio%20-%20CYMRAEG%20(T).pdf)

<p>eu cynnwys ym mhroffil y swydd.</p>	<p>5. Beth fydd mewnbwn a dylanwad y Grŵp Llywio Asesiad Iaith?</p> <p>6. Bydd yr un safonau iaith sydd yn ofynnol yn ystod y cam adeiladu yn cael eu gosod yn ystod y cam gweithredu? A beth fydd rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ymgynghori ac i ddarparu hyfforddiant? Oes modd cadarnhau'r trefniadau yma?</p> <p>7. Ymddengys fod angen arweiniad ar sut i lunio Strategaeth Sgiliau Iaith ar PNH gan nad oes unrhyw dystiolaeth o strategaeth a chynllun hyfforddi strwythuredig ar hyn o bryd: "Ar hyn o bryd nid ydym yn cynnig darpariaeth benodol i gynorthwyo staff i wella'u sgiliau iaith Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn ehangu at gynnwys sgiliau iaith Gymraeg yn ein prosesau rheoli a hyfforddi staff yn y dyfodol." (Pwynt 6.2 : Polisi Iaith Gymraeg PNH)</p> <p>8. Gofynnwn am gadarnhad y bydd PNH yn parhau i hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog (boed yng Nghymru neu du allan i Gymru), dogfennaeth ymgeisio pob swydd yn ddwyieithog, a chyfle ymgeisio a chyfweld yn y Gymraeg heb anfantais.</p> <p>9. Mae'r Fforwm yn adnabod y peryg i israddio'r iaith os mai dim ond yn y sector llafur llaw y clywir y Gymraeg yn y gweithle, heb i'r iaith gael ei chlywed yn feunyddiol gan beirianwyr a rheolwyr mwy arbenigol. Sut fyddwch yn sicrhau fod uwch-reolwyr dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn ymdrin â geirfa dechnolegol yn y ddwy iaith a gosod esiampl drwy godi statws yr iaith yn y gweithle drwy ei siarad yn broffesiynol? Mae manteision i PNH fod â rheolwyr sy'n gallu'r Gymraeg – 'Speakers cannot express themselves adequately in one language, so switch to the other to make good the deficiency. ..This tends to happen when the speaker is upset, tired, or otherwise distracted...Switching to a language is very common as a means of expressing solidarity with a social group...and a degree of rapport is established.' (tud.414, 2006) + "If we know we are being overheard by our seniors we may well alter the way we speak." (tud 325,2006) ⁵</p> <p>10. Sut bydd y pwyslais ar recriwtio staff dwyieithog yn cael ei drosglwyddo i'r isgontractwyr? Ac i'w isgontractwyr hwy? A fydd egwyddorion defnydd y Gymraeg yn eglur yn y Cod Ymddygiad Gweithlu a'r Polisi Iaith y bydd yr isgontractwyr yn ymrwymo ag ef?</p>	<p>without the Welsh language being recognised by more specialist engineers and managers.</p> <p>4. (Fforwm 10) Request confirmation of how Horizon's Welsh language requirements in relation to jobs and the workplace will be required by sub-contractors.</p>
--	--	--

⁵ How Language Works, David Crystal 2006

<p>3. Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweled ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gweler 2. Nid oes Strategaeth Sgiliau Iaith i graffu arno ond disgwylir bydd y mwyafrif o'r swyddi yn gofyn am sgiliau dwyieithrwydd hanfodol neu ddymunol. 2. Dylai staff recriwtio PNH fod yn ddwyieithog er mwyn medru ymwneud â'r gweithlu cyfan, ac os oes aelod o banel penodi yn ddi-Gymraeg yna dylid cael cyfieithydd proffesiynol i gyfieithu atebion Cymraeg yr ymgeisydd i'r aelod o'r panel. 3. Heb ffafiaeth nag anfantais, o ran cyfle cyfartal dylid cyfathrebu yn eglur fod gan yr ymgeisydd hawi i gael cyfweled yn y Gymraeg, gydag un cwestiwn yn Saesneg i asesu sgiliau cyfathrebu Saesneg. Mae'r agwedd yma'n arbennig o bwysig gan y gwelwn eich prentisiaid ifanc yn arweinwyr y diwydiant i'r dyfodol felly mae cynnal eu sgiliau dwyieithog trwy gydol eu cyflogaeth yn bwysig iawn. Amlygir yr angen am hyn yn adroddiad 'Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog – Adroddiad Gweithgor yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol', 2016. Amlygir diffyg dilyniant presennol rhwng gwahanol gyfnodau addysg a'r byd gwaith sy'n golygu fod y sawl sydd wedi cael addysg gyfrwng Gymraeg neu sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol yn colli eu sgiliau yn aml. Mae gan Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb i sicrhau nad yw hynny'n digwydd, er lles datblygiad personol yr unigolion ac er lles economi Cymru. I gynorthwyo normaleiddio defnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau bod sgiliau iaith Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr, mae angen creu amgylchedd y mae staff a'r cyhoedd yn teimlo'n fwy hyderus a diogel ynddo wrth roi cynnig ar eu sgiliau iaith Gymraeg a sicrhau bod sgiliau iaith Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr. 4. Dylai pob swydd, boed yn arbenigol neu beidio, gael ei hysbysebu mewn cyhoeddiadau yng Nghymru. 5. Dylai'r hysbysebion fod yn ddwyieithog gan gyfeirio at y ffaith bydd asesiad yn y ddwy iaith yn y cyfweled. 6. Dylai'r testun yn mhempeld disgrifiad unrhyw un o swyddi PNH gynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd y Gymraeg yn y man gwaith a'r gymuned. Gan gyfeirio hefyd at y cyfle i ddsygu Cymraeg yn y gweithle lle bo'r iaith heb fod yn hanfodol ar gyfer y swydd. 7. Unwaith eto gofynnwn am gadarnhad pa drefn lefelau sgiliau iaith bydd PNH yn ei ddefnyddio, megis trefn CSYM? 8. Nodwn fod Horizon yn disgwyl buddsoddiad gan y llywodraeth felly pwysleisw'n yr angen i gynnig cyfle cyfartal i Gymry Cymraeg ac i gynnwys ymgynghoriad a derbyn arbenigedd y Ganolfan Gymraeg Genedlaethol a Comisiynydd y Gymraeg wrth sefydlu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. There is no Welsh language skills and competencies framework however, Fforwm Iaith Môn expect the majority of jobs to require bilingualism as essential or desirable. 2. Horizon's recruitment staff should be bilingual in order to accommodate the whole workforce. If a member of the interview panel cannot speak Welsh, professional translators should be engaged. 3. In order to provide an equal opportunity, it should be communicated clearly that a candidate has the right to be interviewed in Welsh, with one English question to assess English communication skills. 4. (Ff 4, 5, 6) All jobs, whether they are specialist or not, should be advertised in publications in Wales and all jobs should be advertised bilingually, together with reference to confirm that there will be an assessment on both languages in the interview. Reference should be made in all job adverts to the importance of Welsh in the workplace and the community. 5. (Ff 9) Request confirmation of how Horizon's Welsh language requirements in relation to jobs and the workplace will be required by sub-contractors.
--	---	--

	<p>Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol – Canolfan sydd yn manteisio ar arbenigedd staff profiadol ac arweiniol yn genedlaethol wedi datblygu rhaglen strwythuredig ac effeithiol ar gyfer dysgwyr Cymraeg sy'n oedolion. Mae angen cynllun sy'n adnabod y cyrsiau priodol a'r dilyniant o Gymraeg i Ddechreuwy, Darganfod Cymru a'r Gymraeg, i lefel Dechreuwy i fusnes, i rieni, gan arwain at gyrsiau uwch. Hefyd bydd yn fuddiol i adnabod y pwyslais ar gyfathrebu neu ddefnyddio technoleg wybodaeth yn y Gymraeg, Ymwybyddiaeth Iaith, gweithio'n ddwyieithog, meithrin hyder, a defnyddio Cymraeg yn y Gweithle.</p> <p>Yn ogystal â thargedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a strategaeth 'Iaith Fyw Iaith Byw' 2012 - 2017 cyn hynny, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ynghyd ag aelodau eraill Fforwm Iaith Ynys Môn yn gweithredu ar sail polisiau a strategaethau cenedlaethol y Gymraeg megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p> <p>9. Gofynnwn hefyd am esboniad o sut fydd PNH yn trosglwyddo'r gofynion ieithyddol i'w is-gontractwyr ac i is-gontractwyr y rhain. Pwysleisiwn ei fod yn hanfodol i'r is-gontractwyr gael staff a all ymdrin â'r cyhoedd yn ein cymunedau yn ddwyieithog.</p>	
<p>4. Bydd Horizon yn parhau i ddsbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn yr Orsaf Bŵer i bobl ifanc a chymunedau lleol yn rheolaidd, gan gynnwys 'Mapiau Llwybrau Gyrfa' Wylfa Newydd a Phroffiliau Swyddi dwyieithog. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned.</p> <p>Bydd cyflenwyr lleol a staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) yn ymwneud â hyn ac yn arwain ar hyn.</p>	<p>1. Mae'r Fforwm yn croesawu'r defnydd o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel modelau rôl i bobl ifanc.</p> <p>2. Mae darparu adnoddau cwbl ddwyieithog, gan gynnwys dogfennau technegol gall yr ymgeisydd ei dd/defnyddio i gyfeirio at derminoleg safonol Cymraeg, i'w groesawu. I nifer o ddisgyblion, gall mai'r cyswllt hyn gyda PNH fydd y cyffyrddiad cyntaf gyda'r diwydiant peirianeg/gwyddonol. Pwysleisiwn felly'r angen i'ch tîm fedru darparu cyflwyniad yn y Gymraeg ble mae'r Gymraeg yn iaith addysg y disgyblion, yn unol ag anghenion addysgiadol yr ysgol/Coleg a chyfle i feithrin profiadau dwyieithog y bobl ifanc.</p> <p>"The problem is in the associations that accompany teaching Science and Mathematics through a majority language such as English. Scientific culture is seen as Anglo-American, and an increased status is given to the English language.... Is the hidden message that, the minority language is not up-to-date, isn't capable of scientific and mathematical usage, hasn't the vocabulary to enable scientific and mathematical teaching? Is the minority language therefore connected with history, culture, tradition, folk lore and heritage? Is the majority language connected with modernity, the high status and powerful aspects of Science and Technology? Does this make one language more internationally valued and the other language less so? In Spain and Wales, for example, there have been movements to try to ensure that science teaching, science textbooks and science thinking can all operate in a minority language. Considerable attempts have been made to show that a minority language</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome that Welsh speakers and learners will be used as role models in promotional materials.</p> <p>2. Fforwm Iaith Môn welcome that educational and awareness raising materials and presentations about career opportunities are produced bilingually.</p> <p>3. Opportunity for Fforwm Iaith Môn to support Horizon to raise awareness about the career opportunities.</p>

<p>Bydd staff a chontractwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac adnoddau 'model rôl' amrywiol, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion.</p>	<p>can adapt to being a modern language. New vocabulary needs inventing, sometimes providing extra meaning to a scientific concept, and other times borrowing from the English, Greek or Latin languages." (tud 208,2014) ⁶</p> <p>Mae gan PNH gyfle i fod yn arloesol yma yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn maes arbenigol.</p> <p>3. Gwelwn yma rôl i'r Fforwm hefyd gefnogi PNH drwy ledaenu'r neges am argaeledd cyflwyniadau Cymraeg ar yrfaedd neu bynciau technoleg/ peirianeg/ gwyddoniaeth i ddisgyblion yr ynys.</p>	
<p>5. Fel rhan o'i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>	<p>1. Croesewir yr ymroddiad i hysbysebu pob swydd yn ddwyieithog.</p> <p>2. Nid yw yn hollol eglur, felly dymunwn gadarnhad y bydd pob swydd, boed yn arbenigol neu beidio, yn cael ei hysbysebu mewn cyhoeddiadau yng Nghymru, megis: Golwg 360, lleol.cymru, Swyddle, Safle Swyddi, Recriwtio Cyf, ayb.</p> <p>3. Wrth geisio targedu pobl ifanc yr ynys a thu hwnt, gwelwn yma rôl i aelodau'r Fforwm hefyd i gefnogi ymgyrch recriwtio PNH drwy rannu'r wybodaeth am y swyddi drwy gysylltiadau aelodau'r Fforwm megis MIM, Ffermwyr Ifanc, yr Urdd a MM. Yn ôl adroddiad, cyflogwyr yng Ngogledd Cymru oedd fwyaf tebygol o ystyried bod cael staff â sgiliau iaith Cymraeg ar eu safle yn eithaf pwysig neu bwysig iawn (57%). Sgiliau iaith Gymraeg oedd bwysicaf mewn perthynas â lles staff a chadw staff yng Ngogledd Cymru (39%).⁷</p> <p>4. Hoffem eglurder ar sut y trosglwyddir y gofyniad hwn i'r is-gontractwyr, a'u is-gontractwyr hwythau. A fydd yn rhan o Côd Ymddygiad y gweithlu sy'n adeiladu'r orsaf ac a fydd yn rhan o'r Polisi Iaith bydd yn rhaid i'r is-gontractwyr ymrwymo iddo? Sut fydd hyn yn cael ei fonitro?</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome the commitment from Horizon that job advertisements will be bilingual through the Wylfa Newydd Employment Skills Service.</p> <p>2. Opportunity for Fforwm Iaith Môn to support Horizon's recruitment process by the sharing of job opportunities with members of Fforwm Iaith Môn.</p> <p>3. Request confirmation of how Horizon's commitment in relation to targeting Welsh speakers will be required by sub-contractors.</p>
<p>6. Diweddarar Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu</p>	<p>1. Mae'r geiriad hwn yn dra gwahanol i'r hyn sydd wedi nod dan bwynt 6.8 yn y Polisi Iaith 'Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn o leiaf bob dwy flynedd.' Angen eglurder yma.</p> <p>2. Cyfeiriwyd at Bolisi iaith gyfredol <https://www.horizonnuclearpower.com/files/downloads/our-policies/Welsh%20Language%20Policy%20-%20November%202018.pdf> PNH i</p>	<p>1. Wording of measure 6 in the WLCMES differs from that contained in Horizon's current Welsh Language Policy.</p> <p>2. There isn't a commitment by Horizon to ensure equal opportunities for their employees. During the recruitment process [Wrth recriwtio hy recriwtio staff</p>

⁶ A Parents' and teachers' Guide to Bilingualism, Colin Baker 2014

⁷ 'Adroddiad ar Anghenion Sgiliau Iaith Cymraeg Mewn Wyth Sector 2014'

mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog.

werthuso manyldeb ac effeithlonrwydd y Polisi. Gwelwn sawl agwedd i'w ddiwygio yn y Polisi Cyfredol cyn iddo fod yn effeithiol i ddiogelu hawliau ieithyddol cyflogai PNH a'r cyhoedd.

3. Nodir yr ymrwymiad i wasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd e.e. "Byddwn yn ystyried ac yn cofnodi pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol i gyflawni rhai swyddi penodol o fewn y sefydliad e.e. lle ceir cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd". Teimla'r Fforwm nad oes yr un ymrwymiad gan PNH i'w dyletswyddau i ddiwallu cyfle cyfartal eu cyflogai: "Ni allwn warantu y caiff cyfathrebiadau personol eu cynnal yn y Gymraeg bob amser ond rydym yn croesawu ac yn annog staff sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny." Wrth recriwtio, mae angen ymrwymiad cadarn i sicrhau fod yr holl staff sy'n gwasanaethu'n fewnol e.e. adnoddau dynol, derbynfia, diogelwch, ffreutur yn meddu ar sgiliau Cymraeg 'hanfodol'. Yn ogystal dylid sicrhau canran uchel o'r uwch-reolwyr gall ddelio â materion rheolaeth staff yn rhugl ddwyieithog neu bydd yn arwain at anfantais i'ch cyflogeion Cymraeg.
4. Ar sail cyfle cyfartal ieithyddol, nid yw'n dderbyniol i beidio cyfieithu'r holl ddogfennaeth cyflogaeth a chorfforaethol i'ch cyflogai.
5. Dylid hefyd gyfieithu prif ddogfennau technegol gan sicrhau geirfa dechnegol arbenigol yn y Gymraeg er mwyn i'r gweithwyr fedru trafod eu gwaith yn effeithiol a diogel yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa safonol. Un o themâu allweddol Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae un o benodau'r Strategaeth yn canolbwyntio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac mae gan PNH gyfle unigryw a rôl hanfodol i'w chwarae o ran yr ymrwymiad hwn. <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf> (tudalen 48 y Strategaeth)
6. Sut fydd y datblygwr yn sicrhau na fydd pwysau rheolaethol ar staff i droi i'r Saesneg os yw'n sgwrs broffesiynol rhwng siaradwyr Cymraeg? Felly beth yw'r cynlluniau rhagflaen i osgoi gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sy'n dewis siarad Cymraeg yn y gweithle? Nid yw geiriad y Polisi iaith yn ddigon cadarn gan gynnig cyfle i reolwyr hawlio un-ieithrwydd Saesneg ar sail diogelwch: "Byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl, tra'n cydnabod mai Saesneg yw iaith weithredol y diwydiant niwclear yn y DU ac iaith ein rheoleiddwyr."
7. Mae cyfieithu dogfennaeth dechnegol ymgyngori yn bwysig i'r gymuned a chynghorau lleol hefyd, gan fod nifer ohonynt yn trafod datblygiadau ac yn ymateb ar bapur yn y Gymraeg. Mae'n anfantais iddynt os nad yw PNH wedi darparu'r dogfennau yn y Gymraeg gan amddifadu'r cynghorau / cyhoedd o'r cyfle i ddyfynnu a defnyddio geirfa dechnegol arbenigol safonol wrth ymateb yn y Gymraeg.
8. Croesawn ymrwymiad PNH i sicrhau fod yr is-gontractwyr yn ymrwymo i'r Polisi iaith "Byddwn yn annog contractwyr neu drydydd parti sy'n cyflawni gweithgareddau ar

dwyieithog nid y broses recriwtio], there is a need for a firm commitment that all internal staff [sy'n gwasanaethu'n fewnol] demonstrate essential skills in Welsh. A high proportion of senior management should also be able to deal with staffing matters fluently in Welsh and English.

3. (ff 5) Main technical documents should be translated to enable workers to discuss their work effectively and safely in Welsh. One of the key themes of Welsh Government's Strategy for a Million Welsh speakers is increasing the use of Welsh in the workplace. Horizon has a unique opportunity and an essential part to play to this commitment.

	<p>ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn." Fodd bynnag nid yw'r gair "annog" yn ddigon cadarn. Hoffai'r Fforwm dderbyn cadarnhad y bydd PNH yn ymrwymo is-gontractwyr i'r Polisi Iaith drwy eu cytundebau cyfreithiol, ac y bydd y cytundeb hefyd yn ymrwymo'r is-gontractwyr Tier 2 a 3 hefyd.</p> <p>9. Oes modd cadarnhau fod PNH am ymgynghori a derbyn arweiniad Comisiynydd y Gymraeg wrth lunio Polisi Iaith fwy cadarn? Yn ogystal, swyddogaeth pwy fydd monitro effeithlonrwydd y Polisi Iaith a chydymffurfiaeth PNH a'u isgontractwyr? Beth fydd rôl y Cydlynnydd Iaith a Diwylliant yn asesu a monitro ymrwymiad yr isgontractwyr?</p> <p>10. Fe ddylai'r gwaith blynnyddol i ddiweddarau'r Polisi Iaith Gymraeg gael ei drafod gyda'r byrddau sy'n cael eu crybwyll ym Mesur 21 a 22 (Grŵp Rheoli / Grŵp Rhanddeiliaid Allanol) - angen eglurhad ar rôl rhain.</p>	
<p>7. Bydd arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd yn ddwyieithog.</p>	<p>1. A ydym i ddeall fod HOLL arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro'r datblygiad am fod yn ddwyieithog Cymraeg/Saesneg? Mae hyn i'w groesawu.</p> <p>2. Yn unol ag arfer yn lleol mae angen i'r Gymraeg fod uchaf neu ar yr ochr chwith yn gyfochrog a'r Saesneg.</p> <p>3. Nid oes esboniad a fydd / sut fydd yr iaith Siapanaeg/unrhyw ieithoedd eraill i'r gweithwyr yn cael eu cynnwys. Yn y cyd-destun hwn dylid cadw'r iaith Gymraeg yn weledol gyfartal i'r Saesneg. Fodd bynnag, o ran diogelwch cydnabyddir mai peth da fyddai hefyd sicrhau arwyddion amlieithog ble fydd hyn yn briodol.</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome that public signage on the site will be bilingual. Welsh should be displayed above or next to English. Seek clarification about the use of other languages on public signage on the site.</p>
<p>8. Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymhwyseddau sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd Horizon yn hyfforddi rheolwyr recriwtio perthnasol i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu.</p>	<p>1. Gweler y sylwadau perthnasol i fesur lliniaru 2</p> <p>2. Fframwaith Cymhwyseddau Sgiliau Iaith Gymraeg, yn ogystal â'r Adnodd Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg. Pwy fydd yn darparu arbenigedd i gefnogi PNH i baratoi hyn, gan nad yw'r cwmni yn meddu arbenigedd yn y maes?</p> <p>3. Mae'n faes cymhleth o ran asesu cymhwysedd yn ogystal â darparu'r adnoddau dysgu yn y Strategaeth Sgiliau Iaith. Ble mae'r asesiad o faint o gapasiti staff Dysgu Cymraeg (darparwyr dysgu Cymraeg safonol yr ardal) fydd ei angen?</p>	<p>1. See Fforwm Iaith Môn's position on FfIM 002.</p> <p>2. Fforwm Iaith Môn are in agreement that Horizon will develop a Welsh language skills competency framework and assessment tool. External expertise should be sought to develop this framework and assessment tool.</p>

<p>9. Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Rydym yn croesawu'r bwriad i arwain drwy gyfathrebu'r disgwyliad corfforaethol i barchu'r Gymraeg a'i diwylliant fydd yn y deunyddiau recriwtio. Fodd bynnag mae angen llawer mwy o fanylion i droi'r bwriad yma i fod yn gam lliniaru effeithiol. 2. Cofier am dargedau'r ynys i gyrraedd 60.1% o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021. Mae angen lliniaru a buddsoddi llawer mwy i gynnal a chefnogi cymunedau sy'n wynebu: gostyngiad o 17.2 pwynt canran yng Ngogledd Ynys Môn, gostyngiad o 2.0 pwynt canran yng Ngorllewin Ynys Môn, gostyngiad o 1.5 pwynt canran yn Ne Ynys Môn, gostyngiad o 0.5 pwynt canran yn Nhir Mawr Menai. 3. Mae 'dosbarthu' yn weithred oddefgar i'r derbynydd - nid oes modd sicrhau ei ddarllen, ei ddeall neu ei dderbyn. Dylai'r cyfathrebu digwydd wyneb-i-wyneb. Mewn tegwch i'r cymunedau lleol, dylid buddsoddi llawer mwy o ymdrech yn sicrhau fod pob un aelod o staff, gan gynnwys rhai'r is-contractwyr, yn derbyn awr o ymwybyddiaeth iaith cyn dechrau ar y safle. Yna dylid parhau i ddefnyddio'r cyflwyniadau staff rheolaidd i ddatblygu'r ymwybyddiaeth. Nid yw'n deg disgwyl i'r cymunedau ysgwyddo'r baich o gyfathrebu hyn a gall diffyg dealltwriaeth arwain at wrthdaro yn ein cymunedau. 4. Yn ogystal, er mwyn sicrhau effaith gwirioneddol yn hytrach na siarsio, mae angen cynnig cefnogaeth gymunedol i'r gweithlu fwynhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, a hynny er mwyn gweld a phrofi gwerth iddi'n bersonol. Dylid defnyddio darparwyr profiadol all drosglwyddo brwdfrydedd a chariad at yr iaith a diwylliant gan gynnig cyfle i drafod a chwalu ystrydebau. 5. Nid oes adnabyddiaeth o raddfa, cymhlethdod, a'r buddsoddiad angenrheidiol mewn digwyddiadau i gyflawni hyn yn y camau lliniaru. Oes buddsoddiad gwirioneddol, tu hwnt i arian Cytundeb 106 CSYM a PNH er mwyn gwireddu hyn? Oes lliniaru ar gyfer psyche y Cymry Cymraeg fydd yn wynebu dirywiad o 17.2% yn eu cymunedau? 6. Rhaid hefyd sicrhau fod y gweithwyr "lleol" ynghlwm â'r ymwybyddiaeth iaith gan fod diffiniad "lleol" yn cynnwys ardaloedd hyd at 90 munud o deithio i ffwrdd, felly ardaloedd nad ydynt yn gadarnleoedd y Gymraeg. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Fforwm Iaith Môn welcome that Horizon will communicate its expectations to demonstrate linguistic courtesy in its recruitment processes and materials. 2. Horizon should communicate in person with its staff and sub-contractors rather than distribute information about Welsh language and culture as part of recruitment (induction). All staff and sub-contractors should receive an hour of language awareness prior to commencing on site and these (staff presentations) should continue to be used to develop awareness. 3. Communal support (support in the community through experienced language awareness providers) should also be provided to the workers to ensure that they have the opportunity to enjoy the Welsh language and its culture, so that they experience a personal value. 4. There is no acknowledgement of the scale, complication and the investment required in order to implement the mitigation measures. 5. Home-based workers should also receive information about Welsh language and culture as part of recruitment, as a home-based worker includes some areas of the DCCZ which aren't strongholds of the Welsh language.
<p>10. Bydd Horizon yn cynnwys gofynion o ran gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod rhwng contractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae geiriad y mesur lliniaru hwn yn rhy amwys: 'gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem agenda' i gyflawni beth? A 'darparu gwybodaeth' sy'n weithred oddefgar heb esboniad sut bydd PNH yn sicrhau cydymffurfio. 2. Gweler ein sylwadau ar fesur 6 am flaenoriaethu'r Gymraeg yn y Cod Ymddygiad a chryfhau'r Polisi Iaith gan dderbyn arweiniad arbenigwyr megis Comisiynydd y Gymraeg i ddiogelu hawliau ieithyddol y cyflogai yn ogystal â lliniaru effaith y datblygiad ar y gymuned. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. The wording of the measure is too ambiguous. There is a need to understand how Horizon will ensure compliance, not just providing information. It isn't clear what will be achieved (idiomatically in English it suggests what's the point – Fforwm meaning is what's the aim? To achieve what?) by including the Welsh language is included as an agenda item for all contractor meetings. 2. See comments on FfIM 006 in relation to prioritising the Welsh language within the Code of Conduct and

<p>Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg Horizon (hy drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol).</p>	<ol style="list-style-type: none"> 3. Mae'r Fforwm yn disgwyl cadarnhad y bydd PNH yn ymrwmo'r is-gontractwyr Tier 1, a thrwy hynny Tier 2 & 3, i'r Polisi Iaith drwy'r cytundeb darparu gwasanaeth. 4. Dylai'r isgontractwyr ddilyn polisi iaith Gymraeg Horizon o ran recriwtio, gweithdrefnau, ymdrin â staff, ymdrin â chynghorau cymuned a phartneriaid lleol, ac ymdrin â'r gymuned. 5. Mae angen eglurdeb beth fydd rôl y Swyddog Iaith, Grŵp Monitro lefel uwch, CSYM, a grwpiau lliniaru cam 21 ymlaen. 	<p>strengthening Horizon's Welsh Language Policy with the assistance of specialists such as the Welsh Language Commissioner.</p> <ol style="list-style-type: none"> 3. Fforwm Iaith Môn consider that tier 1, 2 and 3 contractors should be bind to Horizon's Welsh Language Policy, which should be used during recruitment, staffing matters, liaising with local partners and community councils and the local community. 4. There needs to be an explanation of the role of the Welsh Language Officer, Welsh Language and Culture sub-group, IACC and Horizon's management group.
<p>11. Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i'w defnyddio. Bydd contractwyr yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae angen llawer iawn fwy o eglurdeb gan nad yw 'gwybodaeth' ac 'annog' yn ymrwymadau cadarn ar ffurf cytundeb. Ymddengys ar hyn o bryd yn weithred oddefgar o annog defnydd o gwmnïau sydd ar fas-data a ddatblygir gan eraill. Nid welwn dystiolaeth o fwriad PNH i weithio'n fwy rhagweithiol ac eto dyma un o'r materion pwysicaf i gwmnïau bach ein cymunedau Cymraeg, fel yr amlygwyd gan gynrychiolydd FSB drwy Unllais, gan y bu i nifer o gontractwyr bach gollu gweithwyr yr oeddynt wedi hyfforddi i'r Wylfa cyntaf oherwydd cyflogau. 2. I elwa'n lleol felly mae'n ddyletswydd ar ddatblygwyr mawr fel PNH i wneud llawer yn fwy na rhannu bas data, mae angen buddsoddi mewn cwlwm a digwyddiadau cyswllt rhwng y contractwyr lleol a'r rheolwyr a'r isgontractwyr. Er mwyn paratoi gyda'r staffio dylai Horizon drefnu ymweliadau safle, rannu cynlluniau technegol a'r cyfleoedd is-gontractio amrywiol ymhell rhagflaen er mwyn sicrhau mantais i gontractwyr lleol baratoi yn amserol ar gyfer y cyfleoedd. Dylid amlygu cyfleoedd ehangach hefyd megis darparu gwasanaeth bysus a bwyd gan bwysleisio mantais cwmnïau a chyflogai dwyieithog. Dylid ymgynghori'n lleol am argaeledd gan dorri gwaith yn gontractau llai er mwyn cynnwys mwy o fusnesau lleol. Wrth asesu tendr, dylid ychwanegu cydnabod y gwerth ychwanegol gall cwmni lleol gynnig drwy leihau effaith ar yr amgylchedd, gyfrannu mwy at yr economi lleol, weithredu'n gydnaws â'r gymuned ac wrth gwrs cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r gymuned leol. Gofynnwn am gynllun ysgrifenedig sy'n amlygu bwriad PNH i fod yn rhagweithiol i gynnwys darparwyr lleol gan gynnwys amserlen i sicrhau y gall busnesau lleol baratoi i ymgeisio mewn da bryd. 3. Menter Newydd - ydy hwn yn parhau i fod yn rhan o'r trefniadau a beth fydd y rôl? 4. Gofynnwn am fwy o fanylion am y Gronfa Ddata Fusnes - Pryd gaiff y Gronfa ei datblygu, a phryd fydd hi'n barod er mwyn i sylwadau gael eu cyflwyno? 5. Trwy hyn i gyd rydym yn chwilio am ymroddiad cadarn i sicrhau manteision i gwmnïau sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg a chwmnïau sy'n cynnal ein cymunedau Cymraeg lleol. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Greater clarity is needed as 'information' and 'encourage' are not firm commitments in the form of an agreement. No evidence that Horizon will work pro-actively, although this is one of the most important elements to small companies within Welsh communities. 2. There is a need for greater engagement with events for local contractors, managers and sub-contractors, rather than simply sharing data bases. 3. Sub-contracting opportunities should be shared locally well in advance to provide an advantage for local contractors to prepare in a timely manner for the opportunities. Wider opportunities, such as providing transport and food and beverage should also be shared. Work tenders should be divided into smaller work tenders, in order to provide opportunities for local businesses. 4. The additional benefits (such as reducing effect on the environment, greater contribution to the local economy and bilingualism) offered by a local company should be acknowledged when assessing tenders. 5. Fforwm Iaith Môn wish to see a firm commitment to ensure benefits for local companies who employ Welsh speakers and maintain Welsh-speaking local communities.

<p>12. Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r holl staff adeiladu a gweithredu ac yn gofyn i'r staff ddangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon.</p> <p>Bydd Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon yn cadw'r cynllun 'bathodyn' ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith.</p> <p>Bydd Horizon yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac yn diweddarau hyn bob blwyddyn. Bydd Horizon yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant iaith Gymraeg.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r mesur yma yn ymddangos yn gyfres o osodiadau ar ffurf dymuniad, heb strategaeth na strwythur, gan awgrymu nad yw PNH yn llwyr ddeall maint effaith y datblygiad ar y Gymraeg ym Môn, effaith hyd at 9000 o weithwyr ar darged yr ynys o gyrraedd 60.1% o siaradwyr Cymraeg, a'r buddsoddiad sydd eisoes wedi bod ar yr ynys i wireddu amcanion Cymraeg 2050 y llywodraeth a Strategaeth Iaith CSYM. Yn benodol amlygwn y defnydd o eiriau amwys megis "gofyn" "pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd", "annog". 2. I liniaru effaith hyd at 9000 o weithwyr ar yr ynys, safbwynt y Fforwm ar Ymwybyddiaeth Iaith yw dylid fod yn orfodol i bob aelod o staff a'u teuluoedd. O leiaf hyfforddiant awr gan ddarparwyr lleol profiadol all drosglwyddo'r brwdfrydedd yn ogystal â chwalu ystrydebau. Mae angen buddsoddi mewn pecynnau o ddarpariaethau/digwyddiadau anffurfiol/cymunedol i ychwanegu gwerth i hyn. Mae Menter Iaith Môn mewn sefyllfa i fod yn cynnig ymwybyddiaeth iaith gyda buddsoddiad ariannol gan PNH i sybsideiddio amser staff a phartneriaid y Fforwm ar gael i gyflwyno digwyddiadau hwylus a symbylus ar gyfer teuluoedd y gweithwyr. 3. Gofyn i ddangos cwrteisi. Safbwynt y Fforwm yw mai dymuniad afrealistig yw hyn heb fuddsoddiad mewn ymwybyddiaeth iaith, gweithgareddau Cymraeg, a chynnig o ddysgu Cymraeg i bawb. Gofynnwn felly i weld Cynllun Strategaeth Hyfforddiant. Mae angen manylion o sut bydd PNH yn cyflawni hyn gan ddisgwyl gweld y datblygwyr yn cydweithio a CSYM i fabwysiadu lefelau gallu Cymraeg o Lefel 1-5, ac ymgynghori gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i adnabod pecynnau addas a chynllunio capasiti cynnig Cymraeg yn y gweithle. 4. Amserlen - bydd angen i ddarparwyr addasu eu strategaethau a threfnu capasiti Ymwybyddiaeth Iaith, Digwyddiadau, Dysgu Cymraeg rhagflaen. Felly gofynnwn am amserlen yn dangos y niferoedd disgwyliedig a pryd fydd y galw. Yn ogystal mae galw i osod y data yng nghyd-destun adroddiadau blynyddol Partneriaid y Fforwm i'r llywodraeth, sydd yn gofyn am fesur cyflawniad a llwyddiant eu gwaith a'u buddsoddiad yng nghyd-destun Targedau Cymraeg 2050 a chynnydd canran siaradwyr Cymraeg yr ynys. 5. Sut fydd Horizon yn defnyddio'r data? I bwy fydd PNH yn cyflwyno'r data? Sut fydd y cynnydd o sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei fesur a'i gofnodi? 	<ol style="list-style-type: none"> 1. There is no strategy or structure to substantiate this measure, suggesting that Horizon does not fully comprehend the magnitude of the effect of the development on the Welsh language on Anglesey, and the effect of the workforce on IACC's target of achieving 60.1% Welsh speakers by 2021, and the investment previously made on Anglesey to substantiate the aims of Welsh Government's strategy – Cymraeg 2050 and IACC's Welsh Language Strategy. 2. Language awareness should be compulsory for all members of staff and their families. With financial support by Horizon to subsidise staff time, Menter Iaith Môn are in a position to offer Welsh language awareness for the families of the workers. 3. It's an unrealistic desire to expect linguistic courtesy without investment in language awareness and offering the opportunity for all workers to learn the Welsh language. Consider that a Strategic Training Plan is developed. Detail is required about how Horizon will achieve this, with the expectation for the developer to work with IACC to adopt level 1-5 Welsh language skills, consult with the Centre for Learning Welsh to identify suitable packs and to plan for offering Welsh in the workplace. 4. In order to prepare in a timely manner, information is required on the timeline for the number of workers.
<p>13. Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Erys gofid am fethodoleg PNH ac amseru rhyddhau'r wybodaeth. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Concern regarding Horizon's methodology for calculating the number of dependents and the timing for release of information collected.

bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu.

2. Niferoedd a Methodoleg: Sylwn fod anghytundeb o ran y niferoedd PNH sy'n amcangyfrifo 220 a CSYM sydd yn asesu'r niferoedd i fod dros 500. Daw'r ffigyrau uwch o asesiad 2 ymgynghorydd a ddaeth i gasgliad yn annibynnol fod y nifer disgwylidig dros ddwbl y nifer o 220 a awgrymir gan PNH. O ganlyniad, disgwyliwn fwy o eglurder ynglŷn â methodoleg PNH i esbonio'r gwahaniaeth, oherwydd wrth dan-amcangyfrif niferoedd bydd byrdwn ar draul costau i'r gwasanaethau cyhoeddus, i'r gymuned ac i'r Gymraeg.
3. Yn ogystal, ni welwn gyfeiriad at effeithiau cronus y datblygiad ar niferoedd eraill o weithwyr i'r ynys a'uartneriaid a phlant. Yn uniongyrchol gysylltiedig ag amserlen datblygiad PNH mae hefyd disgwyl 400 mwy o weithwyr National Grid, a niferoedd o weithwyr i adeiladu pont newydd mewn pryd i hwylyso cludiant i Wylfa. Faint o weithwyr a ble mae hyn yn cael ei gydnabod fel effaith cronus ar y gymuned a'r Gymraeg?
4. Amseru: Gan gofio fod y gymuned yn ymddiried yn PNH i adeiladu un o adeiladau mwyaf, gyda'r dechnoleg fwyaf cymhleth yn Ewrop, disgwylir fod y cwmni'n gymwys i rag amcangyfrif niferoedd a rhyddhau gwybodaeth yn ddiennw ymhell o flaen llaw er mwyn i bartneriaid y Fforwm gynllunio rhagflaen. Deallwn gan bartneriaid y bydd angen cadarnhau niferoedd erbyn 2019 felly edrychwn am gadarnhad o hyn yn yr amserlen. Mae'r ymateb i'r brys hyn yn elfen hanfodol i wireddu camau lliniaru effeithiol.
5. I gyd-fynd gyda'r asesiad niferoedd teuluoedd, plant, oed byddwn am weld amserlen cwblhau lloches y gweithwyr i wirio faint o'r gweithwyr heb loches fydd yn y cymunedau.
6. Mae'n hanfodol bwysig i rannu'r wybodaeth hon gyda'r partion perthnasol er mwyn ymateb yn amserol i leihau difrod niweidiol. Mae'r effaith ar y blynyddoedd cynnar yn bryder i Mudiad Meithrin sydd yn arwain ar y ddarpariaeth Gymraeg i blant cynysgol ar yr ynys gan ofyn: Beth oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu nifer y plant y rhagwelir sy'n debygol o adleoli i'r ardal? Credwn nad oes digon o ddata wedi ei dderbyn er mwyn i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol gynllunio darpariaeth.
7. Pa bryd gaiff y data ei rannu gyda'r Awdurdodau Lleol a chyrrff perthnasol eraill fel Mudiad Meithrin? Os na chaiff ei rannu nes bod y gweithwyr a'u teuluoedd wedi cyrraedd neu ychydig cyn hynny, fe fydd hi'n rhy hwyr o lawer i gynllunio'r ddarpariaeth.
8. Nid yw ychwaith yn rhoi amser digonol i deuluoedd gael gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau cadarnhaol ynglŷn â gofal ac addysg Gymraeg i'w plant. Ni fyddent ychwaith yn cael gwybodaeth am y gwahanol ddarpariaethau sydd ar gael i'w cefnogi i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg fel teulu.

2. Fforwm Iaith Môn note the disagreement between Horizon and IACC regarding the projected number of dependents. Underestimating the number of dependents, there will be a financial burden for public services, the community and the Welsh language.
3. No consideration of cumulative effects of the development and workers from other projects moving to Anglesey.
4. Projected number of dependents and sharing of anonymised data should be released as early as 2019 to ensure that partners of Fforwm Iaith Môn can forward plan in a timely manner. It would be too late to share this information when workers and their dependents have arrived.
5. It is also important [in advance] for families of the workers to receive information about Welsh medium education and care for their children, as well as the support available for the family to learn and use Welsh.
6. The effect of the Wylfa Newydd DCO Project on early years provision is of concern to Mudiad Meithrin.
7. Require more detail regarding the data, specifically age of dependents, where they will reside and their Welsh language skills upon arrival.
8. Need to consider capacity of Mudiad Meithrin to offer places for children with a possible need to employ more staff in certain areas. Staff to pupil ratio is important (1:4 for 2-year olds and 1:8 for 3-year olds).
9. Fforwm Iaith Môn welcome that this forms part of the Draft DCO s.106, however more detail is required regarding the methodology, projected number of dependents and timeline for their arrival and contingency funding.

	<p>9. Mae angen mwy o fanylion ynglŷn â'r data: beth yw oed y plant / ble fyddant yn byw / beth yw eu sgiliau iaith Gymraeg wrth gyrraedd?</p> <p>10. Rhaid ystyried capasiti'r Mudiad Meithrin i gynnig lleoedd i'r plant. Mae'n bosibl y bydd gofyn cyflogi mwy o staff mewn Cylchoedd penodol.</p> <p>11. Mae'r gyfradd plant i staff yn hollbwysig (1 i 4 gyda phlant dyflwydd oed ac 1 i 8 gyda phlant tair oed) a rhaid ei sicrhau bob amser.</p> <p>12. Plant oed ysgol - cyfeiriwn at hyn yn gam 16.</p> <p>13. Oedolion yn chwilio am waith – ni welwn asesiad o niferoedd ag effaith partneriaid yn chwilio am waith yn lleol ar y farchnad lafur a'r iaith Gymraeg.</p> <p>14. Croesawu fod hwn yn rhan o gytundeb 106, ond mae angen mwy o fanylion am y fethodoleg, rhag-gynllunio gydag amcangyfrifon yn cyrraedd y gwasanaethau cyhoeddus erbyn 2019, a chronfa wrth gefn i ddefnyddio darparwyr anstatudol i helpu gyda'r lliniaru.</p>	
<p>14. Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol ddwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr addysg bellach.</p>	<p>1. Aneglur beth yw ystyr 'parhau' a 'cymorth addysgol'.</p> <p>2. Croesewir y cyfle i gyflwyno diwydiant a gwyddoniaeth yn y dosbarth i ddisgyblion lleol gan atgoffa'r datblygwyr bod ffin denau weithiau rhwng cynnig cymorth addysgol fel rhan o PR meddal a chynnig addysg gytbwys ar yr holl ddulliau cynhyrchu ynni yn ôl disgwyliadau addysgol Llywodraeth Cymru.</p> <p>3. I wella ar y ddarpariaeth a fu gan Wylfa yn flaenorol, gofynnwn i'r holl ddarparwyr fod yn rhugl ddwyieithog er mwyn medru addysgu yn uniaith Gymraeg os mai dyma yw cyfrwng dysgu gwyddoniaeth yr ysgol. Mae galwad cynyddol ar i ysgolion gyflwyno pynciau STEM ac o sicrhau addysgwyr dwyieithog bydd yn rhoi cyfle i fwy o ymgeiswyr lleol ymuno â'r tîm gan gyfrannu at greu cohort cynyddol o wyddonwyr sy'n medru ymdrin â'u gwaith yn ddwyieithog.</p> <p>4. Beth oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu nifer y plant y rhagwelir sy'n debygol o adleoli i'r ardal? Gwyddwn o ddogfennau cyhoeddus PINS fod CSYM wedi comisiynu dau ymchwiliad annibynnol sy'n dyblu nifer disgwylidig o 'ddibynyddion' - (dependents) - plant a phobl ifanc.</p> <p>5. Dylid derbyn arbenigedd partion â buddiant ar y mater hwn a'r sylwadau sydd wedi ei chyflwyno gerbron yr arolygaeth gynllunio.</p> <p>6. Sylwadau pellach o dan gam 16.</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome the opportunity to present science in classrooms for local pupils, however, there is a fine line between providing educational support as part of soft PR and offering a balanced education on all forms of energy production in accordance with Welsh Government's educational expectations.</p> <p>2. (Wylfa) Educational providers should be fluently bilingual in order to provide Welsh-medium educational support for science.</p> <p>3. There is an increasing need for schools to introduce STEM subjects, and by ensuring bilingual education providers, this will provide an opportunity for more local applicants to join the team, contributing towards creating an increasing cohort of bilingual scientists.</p>

<p>15. Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau Prosiect DCO Wylfa Newydd ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu gynllun cyfatebol, i bobl ifanc.</p>	<p>1. Mae "ehangu darpariaeth addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau yn yr iaith Gymraeg." (tud 56, 2017) ⁸ yn ganolog i Thema 1, Strategaeth Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei groesawu gan y Fforwm oherwydd gall fod yn sbardun pwysig i yrfa ac o dargedu'n lleol a phwysleisio mantais sgiliau dwyieithog, bydd PNH yn meithrin a datblygu arweinwyr dwyieithog yn y diwydiant.</p> <p>I wireddu'r potensial hyn mae'r Fforwm yn gofyn am gadarnhad:</p> <p>2. Niferoedd - beth fydd y niferoedd yn flynyddol ac a fydd cynnydd wrth i'r datblygiad dyfu?</p> <p>3. Bydd ymrwymiad i sicrhau fod y prentisiaid yn dod o Fôn, Gwynedd a Chonwy yn unig a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei gydnabod fel sgil bwysig er mwyn ymgeisio am brentisiaethau?</p> <p>4. Bydd y recriwtio a'r holl adnoddau yn ddwyieithog, gan gynnwys cyfle cyfweld yn y Gymraeg?</p> <p>5. Bydd y profiad prentisiaeth yn cynnwys cyfle i brofi trochi Cymraeg i'r rhai nad ydynt wedi gweld dwyieithrwydd ar waith yn y gweithle?</p> <p>Mae cynllun GwE 'Datblygu'r Gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg' yn nodi:</p> <p>'Rydym yn cydnabod na all 'addysg' yn unig greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Rydym yn gwbl ymwybodol bod angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd... un nod gennym yw sicrhau bod ein disgyblion yn adnabod cyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg tu draw i'r dosbarth mewn gweithleoedd.' Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.</p> <p>Amlyga Estyn yn y cyhoeddiad 'Alinio'r Model Prentisiaeth ag Anghenion Economi Cymru' mai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Prentisiaid 2016-22 yw atgyfnerthu cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog, gan sicrhau y gall pob dysgwr gynnal a datblygu eu sgiliau iaith Cymraeg.</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome that Horizon will maintain its existing Wylfa Newydd Project Technical Apprenticeship Scheme. Enhancing the educational provision for further and higher education through the medium of Welsh and providing opportunities to follow apprenticeship schemes through the medium of Welsh is central to Theme 1 of Welsh Government's Strategy, Cymraeg 2050.</p> <p>2. There is an opportunity for Horizon to be innovating in their commitment to the Welsh language.</p>
--	---	--

⁸ <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf>

	<p>Hyn oll yn cefnogi cyfle i Pŵer Niwclear Horizon fod yn arloesol yn eu hymrwymiad i'r Gymraeg.</p>	
<p>16. Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw yn cael ei fonitro drwy gasglu data. (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.14)</p>	<ol style="list-style-type: none"> O ran graddfa, ni allwn orbwysleisio ein hanghytundeb gyda pha mor annigonol fydd y cam hwn i liniaru effaith y datblygiad ar y Gymraeg mewn addysg. Y bwriad yw lliniaru'r hyn sydd am waethygu - ac mae'r her yn anferthol i liniaru effaith gostyngiad y canran o siaradwyr Cymraeg i lai na 50%. Nid yw ateb PNH yn ateb yr her yma a chredir ei fod yn adlewyrchu diffyg ymrwymiad, amharoddrwydd i fuddsoddi'n gyfatebol i faint y datblygiad, neu ddiffyg dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol. Niferoedd - gweler 13.1 ble rydym yn gofyn am y fethodoleg gan PNH sydd wedi dod i gasgliad gwahanol iawn i asesiad dau ymgynghorydd annibynnol CSYM. Oherwydd y gwaethygu ar safonau addysg a'r defnydd o Gymraeg, mae adnabod y niferoedd cywir yn hanfodol i liniaru'r effaith ar ysgolion. Mae'n rhesymol i ni dderbyn asesiad niferoedd CSYM fel y rhai cywir o gofio arbenigedd CSYM a'r asesiad gan ddau arbenigwr sy'n dod i gasgliad yn annibynnol o niferoedd tebyg sydd mwy na dwbl niferoedd PNH. Niferoedd athrawon - yn unfrydol, mae pob un o aelodau'r Fforwm wedi datgan fod y cynnig o 2 athro, ag 1 yng Ngwynedd, yn gynnig sarhaus o isel i liniaru effaith y datblygiad ar addysg Môn. O ystyried ystod ac ehangder ein profiad ar y Fforwm, yn cefnogi teuluoedd, cymunedau ag ysgolion, a chan gofio fod Gwe, arbenigwyr addysgol ar ran y llywodraeth yng ngogledd Cymru hefyd ar y Fforwm - dylid edrych o ddifrif ar ddiffyg ewyllys PNH i fynd i'r afael a lliniaru effaith y datblygiad ar addysg a Chymraeg i blant. Roedd y Fforwm yn unfrydol yn cefnogi asesiad CSYM am y ddarpariaeth o 12 aelod staff i liniaru'r effaith ac ni chredwn fod gan PNH unrhyw sail i wrthwynebu hyn o ystyried dealltwriaeth a phrofiad CSYM a'r asesiadau annibynnol proffesiynol wrth gymharu â diffyg dealltwriaeth a phrofiad PNH a'r diffyg tystiolaeth o fuddsoddiad mewn ymgynghorwyr cynllunio ieithyddol ag addysgiadol. Mae CSYM yn gyson dros y blynyddoedd wedi cynghori PNH ar y diffyg yn eu hamcanion lliniaru ar y mater hwn, ac rydym wedi bod yn dyst i hyn yn y Fforwm Iaith sirol, felly mae'n siom nad yw PNH wedi derbyn arbenigedd y partion a buddiant a'r awdurdod lleol. Ni fydd modd cytuno ar hyn oni bai i'r datblygwyr dderbyn cais CSYM yn llawn. Yn ogystal mae'r gyfradd athrawon trochi i blant (1 i 8) yn holl bwysig gan i'r dull yma brofi'n llwyddiannus dros y blynyddoedd ac i bob aelod o'r Fforwm ategu hyn o'u profiad proffesiynol yn ymwneud a'r unedau iaith a'r plant sydd wedi elwa o'r ddarpariaeth. Dyma ydi'r drefn ar yr ynys cyn i PNH gyrraedd, felly nid ydym yn barod i dderbyn gostyngiad yn y safonau yn dilyn gostyngiad cyfradd athro/plant yn sgil y datblygiad. Gofynnwn felly pe bydd angen y gwasanaeth ar fwy o blant, a fydd PNH yn ymrwymo i gyflogi mwy o athrawon i ddiwallu'r galw heb oedi? 	<ol style="list-style-type: none"> This measure is inadequate to mitigate the effect of the development on Welsh medium education. The challenge to mitigate the effect of reducing the proportion of Welsh speakers to less than 50% is huge. Horizon is not responding to this challenge and it reflects lack of commitment, an unwillingness to mitigate in relation to the magnitude of the development or lack of understanding of linguistic planning. Accurate projections for dependents are essential to mitigating the effects on schools. Fforwm Iaith Môn unanimously disagree with Horizon's proposal to fund two immersion teachers on Anglesey and one in Gwynedd and support IACC's assessment that there is a requirement for 12 members of staff to mitigate the effects. Horizon do not have the evidence to reject this assessment. Fforwm Iaith Môn will not agree on this unless Horizon accept IACC's assessment of the projected number of pupils and number of immersion teachers required to mitigate the effect. Maintaining a 1:8 teacher pupil ratio for immersion teaching is important, and is supported by Fforwm Iaith Môn. There is a need to train immersion teachers early in order to be prepared for the arrival of workforce dependents. This requires early funding (2019). The introduction of non-Welsh speaking children to local schools will influence the language within classrooms, the yard, local social clubs and the community. There will be a need to offer continuous immersion opportunities after pupils leave the language immersion units. This offer is currently provided by Yr Urdd, Menter Iaith Môn and Anglesey Young Farmers' Clubs. These will need financial support to increase capacity of staff in order to mitigate effects on Welsh community activities outside school hours.

	<p>6. Bydd angen rhyddhau arian rhagflaen yn 2019 er mwyn sicrhau digon o flynyddoedd i hyfforddi'r athrawon arbenigol hyn er mwyn fod yn barod i dderbyn y plant i'r gwasanaeth drochi. Mae'n hanfodol na fydd oedi rhwng yr adeg y bydd y plant yn cyrraedd yr ardal a phan fyddant yn mynd i'r ddarpariaeth drochi. Unwaith y bydd plant wedi dechrau arferion siarad Saesneg yn yr ysgol, fe fydd hi'n anodd iawn gan gymryd mwy o adnoddau i newid eu harferion iaith.</p> <p>"Most immersion teachers are particularly committed to bilingual education, enthusiastic about bilingualism in society, acting as language missionaries. In the equation of a successful bilingual school, such enthusiasm and commitment may be an important and often underestimated factor in success. The commitment of bilingual teachers, and the special skills that a bilingual teacher uses beyond those required of a monolingual teacher, may be underestimated in the equation of successful bilingual schooling." (tud.178, 2014)⁹</p> <p>7. Bydd dyfodiad plant heb allu Cymraeg i ysgolion lleol yn dylanwadu ar iaith yr ystafell ddosbarth, yr iard, clybiau cymdeithasol lleol ac ymhellach o fewn y gymuned. I blant o gefndiroedd di-Gymraeg bydd angen darparu cyfleoedd trochi parhaus allgyrsiol i'r disgyblion wedi iddynt adael yr unedau iaith. Mae hyn yn wasanaeth a gynigir eisoes ee gan yr Urdd, Menter iaith Mon a Ffermwyr Ifanc a bydd gofyn am gynyddu cefnogaeth ariannol i'r rhain i gynyddu capasiti staff wrth gynyddu amllder ac ymestyn lleoliadau i ar egwyddor agosatrwydd, os ydym am liniaru effaith ar y Gymraeg y plant yn y gweithgareddau cymunedol y tu allan i oriau ysgol.</p> <p>"The Irish and Welsh immersion experiences tend to suggest that most children whose home language is English will cope successfully in minority language immersion classrooms. For such children, the language context is additive rather than subtractive. The danger is that the majority language of English, being the common denominator, will be the language used between pupils in the classroom, in the playground and certainly out of school. A balance towards a greater proportion of language minority speakers may help to ensure that the 'common denominator' majority language does not always dominate in informal classroom and playground talk." (tud. 179, 2014)¹⁰</p> <p>8. Yn yr un modd a cham 13 - mae'r Fforwm am weld amserlen rhyddhau data dienw, gan ganiatáu i'r blynyddoedd cynnar a'r ysgolion baratoi rhagflaen o 2019 ymlaen. O ystyried buddiant y partion, pwysleisw'n nad yw'n addas i'r cyhoedd gasglu fod PNH yn elwa o arbedion drwy oedi, tra bydd y plant yn dioddef yn addysgol a CSYM yn ysgwyddo'r baich ariannol o unrhyw oedi.</p> <p>9. Pwysleisw'n wendid paratodau PNH i liniaru'r effaith oherwydd diffyg buddsoddiad mewn cynllunio ieithyddol pwrpasol ac amharoddrwydd i dderbyn cyngor gan</p>	<p>7. See comments in relation to FfIM 013 in relation to timescale for release of anonymised data.</p> <p>8. Fforwm Iaith Môn emphasise Horizon's weaknesses (that there will be a perceived vested interest if Horizon fails) to prepare to mitigate the effects due to lack of investment in appropriate linguistic planning and unwillingness to accept assistance from specialists in this field.</p> <p>9. No detail of mitigation measures to support dependents (children) with no skills in Welsh or English.</p> <p>10. The development has the potential to lead to a detrimental effect on the proportion of Welsh speakers on Anglesey and Welsh speakers will be in the minority for the first time ever. (The development's potential impact is to reduce the percentage of Welsh speakers to a minority of less than 50%. A serious issue that could lead to reduced service provision in Welsh as well as community conflict due to frustration at loss of language and culture by native speakers)</p>
--	--	--

⁹ A Parents' and teachers' Guide to Bilingualism, Colin Baker 2014

¹⁰ "

	<p>arbenigwyr yn y maes. Mawr obeithiwn y bydd y cwmni'n adnabod y diffygion yn eu paratodau ac yn ailystyried y mesur lliniaru pwysig hwn.</p> <p>10. Nid oes yma chwaith fanylion am y camau lliniaru ar gyfer plant nad oes ganddynt Gymraeg na Saesneg. Gofynnwn am eglurhad am sut fydd y broses trochi ac ym mha drefn bydd hyn yn digwydd i blant felly.</p> <p>11. Mae gan y datblygiad y potensial i newid canran siaradwyr Cymraeg Môn yn andwyol iawn a bydd y siaradwyr Cymraeg yn dod yn lleiafrif am y tro cyntaf erioed. Gall hyn effeithio agweddau darparwyr eraill tuag at y cymunedau gan leihau ymdrechion i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, gan fod mwy yn siarad Saesneg. Gall hefyd arwain at rwystredigaeth neu wrthdaro gan siaradwyr Cymraeg sy'n adnabod y golled o'u hiaith a'u diwylliant. Nid oes tystiolaeth fod PNH wedi gwerthuso hyn a chynnig camau lliniaru.</p>	
<p>17. Bydd Horizon yn datblygu ac yn dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr Prosiect DCO Wylfa Newydd sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu'r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r gymuned.</p>	<p>1. Wrth gwrs mae pecyn croeso i'w groesawu ond unwaith eto megis dechrau yw hyn i liniaru graddfa effaith y datblygiad ar iaith y cymunedau. Mae'r cymunedau ar draws Môn am fod yn gostwng yn y canran o siaradwyr Cymraeg, gyda rhai yn gostwng cymaint â 17%. Ymddengys fod PNH yn dibynnu ar ymchwil a chasglu data yn hytrach nag arbenigedd chynllunio ieithyddol rhagflaen wrth gynnig mesurau lliniaru effaith yn y cymunedau. Un enghraifft: 'Gweithredu'n Lleol – Fframwaith gan Y Ganolfan Iaith a wedi ei ddiweddarau a'i fabwysiadu gan Llywodraeth Cymru 2014 ar gyfer cynllunio iaith micro ymysg cymdogaethau Cymraeg https://llyw.cymru/topics/welshlanguage/publications/gweithredun-lleol-resource-pack/?lang=cy</p> <p>2. Pecyn - Sut mae sicrhau fod rhywun yn ei ddarllen, ei ddeall a'i dderbyn?</p> <p>3. Goddefol yw'r cam lliniaru yma - mae'n teimlo fel tic mewn bocs heb ddechrau mynd i'r afael â gwir effaith gweithwyr a'u teuluoedd ar ein cymunedau. Bydd gofyn i'r wybodaeth a ddarperir i deuluoedd gyfleu cymuned groesawgar a digwyddiadau cymunedol i gefnogi hyn.</p> <p>4. Mae angen buddsoddi i greu 'pecyn' sy'n fwy na Llyfryn Croeso yn unig i gynnig cyfleodd i gymhathu cymunedau. Mae angen cyfleodd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg, i gymhathu siaradwyr newydd, newydd-ddyfodiaid a siaradwyr rhugl.</p> <p>"why we should care about dying languages at all? We should care for the very same reason that we care when a species of animal or plant dies. It reduces the diversity of our planet. ... the issues are the same. Enshrined in a language is the whole of a community's history, and a large part of its cultural identity. The world is</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome the commitment that welcome packs will be provided to workers and their families, however, this represents just the beginning of mitigating the effect on the language of the communities.</p> <p>2. Investment required to create a pack which is more than a welcome pack only – need for informal opportunities to use the Welsh language, and to integrate new Welsh speakers, late-commers and fluent Welsh speakers.</p> <p>3. This mitigation measure does not acknowledge the work of existing community groups which have invested to maintain the Welsh language within the communities.</p> <p>4. Fforwm Iaith Môn welcome that this commitment is part of the Draft DCO s.106 [REP3-042], however, partners of Fforwm Iaith Môn are also in a position to realise this work. Consideration needs to be given to increasing the capacity of these partners to provide support in relation to this measure.</p>

a mosaic of visions. To lose even one piece of this mosaic is a loss for everyone.”
(tud, 339, 2006)¹¹

5. Nid yw'r mesurau yn cydnabod gwaith yr holl grwpiau cymunedol sydd eisoes yn buddsoddi i gynnal y Gymraeg: Menter Iaith Môn, Menter Mon, Medrwn Môn, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Theatr Ieuenctid Môn, Côr yr Ynys, Theatr Fach, Clybiau Chwaraeon, Clybiau Ieuenctid, y capeli a'r eglwysi, clybiau cinio a llenyddol, Merched y Wawr, Canolfan Dysgu Cymraeg ac yn arbenigo ar wead eu cymunedau - y cynghorau cymuned a thref. Mae'r rhain oll yn buddsoddi o'u hamser a'u hadnoddau i geisio cynnal a gwella canran y siaradwyr Cymraeg ym Môn.

Achieving success in language learning: “Motivation is a central factor....Attitude towards the foreign language is important. If a student perceives a country or culture to be unpleasant, for whatever reason, the negative attitude is likely to influence language learning achievement – and conversely...Exposure... needs to be regular...Exposure to native users.” (tud. 435, 2006)¹²

6. Croesewir fod hwn yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol 106 CSYM a PNH. Fodd bynnag mae MIM a partneriaid uchod mewn sefyllfa gref i wireddu'r gwaith hwn - sut fydd PNH yn codi capasiti'r mudiadau uchod, i liniaru ar effaith y mewnlifiad ar y Gymraeg yn y Cymunedau, y tu allan i gytundeb 106 gyda CSYM? Sut gall mudiadau lleol gyflwyno syniadau gerbron? Beth yw'r strwythur a'r gefnogaeth ariannol fydd yn bodoli rhwng PNH a'r cynghorau cymuned a thref a'r Pencampwyr Iaith sydd ar waith yn y cymunedau hyn?
7. Oes gan Gydlynnydd Iaith a Diwylliant ddylanwad ar wariant yr arian hwn? Beth yw rôl Cydlynnydd Iaith Gymraeg a Diwylliant a'r Swyddogion Cynnwys y Gymuned sydd yng nghytundeb 106 i'r cyd-destun hwn?
8. Beth yw'r buddsoddiad mewn codi ymwybyddiaeth a hyder teuluoedd sy'n siarad Cymraeg yn lleol o bwysigrwydd cynnal a rhannu'r Gymraeg yn y Gymuned?

Dylid cyfeirio at Ymchwil 'Trosglwyddo'r Gymraeg a'i ddefnydd mewn teuluoedd' Llywodraeth Cymru 2017 yn y cyd-destun hwn ¹³ sy'n ateb y ddau gwestiwn am yr hyn sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i Ddefnydd mewn teuluoedd. Mae'n frith o ddata a hefyd engreiffitia gan unigolion sy'n cyfleu pa mor gymleth

¹¹ 'How Language Works', David Crystal 2006

¹² ”

¹³ <https://dera.ioe.ac.uk/30870/2/170612-welsh-language-transmission-use-in-families-cy.pdf>

	<p>yw trosglwyddo iaith hyd yn oed i siaradwyr Cymraeg, pan yn byw mewn cymuned gyda canran uwch na allant siarad Cymraeg: ee rhiant o Ynys Môn yn esbonio na fydd yn newid i'r Gymraeg os yw ei phlentyn yn siarad Saesneg â hi:</p> <p>“Os mae hi'n dechrau [siarad Saesneg] wnai ddim newid o, faswn i ddim yn specifically neud o ar bwrpas ond fatha, dwi'n meddwl am bod nhw'n watchad programmes Saesneg yna os ma nhw'n chwarae efo 'My Little Pony' ma o'n dod yn naturiol iddyn nhw siarad Saesneg... ac hefyd dwi'n meddwl bod na blant Saesneg ac ar yr iard ma na Saesneg yn mynd mlaen.' Mam – Ynys Môn (tud.120, 2017)</p> <p>+ 'Adroddodd Lyon (1996¹⁴) fod mwyafrif clir o'r holl rieni yn ei harolwg fel rhan o'i gwaith ymchwil ar Ynys Môn (85%) yn dymuno i'w plant fod yn rhugl yn y Gymraeg' (tud.33, 2017)</p> <p>9. Beth yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau fod teuluoedd sydd yn dod i mewn i'r ardal yn ymwybodol o gyfleoedd i fod yn weithredol gyda'r trydydd sector sydd yn cyfoethogi'r cymunedau? Mae holl bartneriaid y Fforwm yn barod i gydweithio gyda'r Cydlynnydd Iaith a Diwylliant i wireddu hyn.</p>	
<p>18. Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith gymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Croesewir y rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned a gofynnir am fanylion eu swyddogaethau a chadarnhad bydd y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn. 2. Oes buddsoddiad ariannol i gefnogi'r Swyddogion hyn tu hwnt i gostau swyddi? 3. Beth yw rôl mudiadau sydd eisoes yn gwasanaethu'r gymuned leol yma? Dylid cynnwys partneriaid e.e. Menter Môn, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Dysgu Cymraeg, Menter Iaith Môn, Medrwn Mon... yn y trafodaethau hyn. 4. Fodd bynnag gwelwn un gwendid elfennol yn y cam lliniaru sydd unwaith eto yn codi amheuan am y diffyg dealltwriaeth PNH am gynllunio ieithyddol wrth liniaru effaith. “Cefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned” yng nghyd-destun y Gymraeg ym Mon, mae hyn yn ddiystyr onibai ei fod yn golygu bydd y datblygwr yn cefnogi mewnfudwyr i ddysgu Cymraeg. A'i dyma'r cynnig ac a fydd yn cael ei estyn i bartneriaid y gweithwyr? Ble mae'r dystiolaeth eu bod wedi meintioli hyn? Faint yn o bobl fydd yn y gymuned? Ble mae'r ymchwil i ddangos capasiti Dysgu Cymraeg i wireddu hyn? Byddem yn croesawu eglurder am y cam hwn. 5. Deunyddiau hyfforddi priodol – beth yw ystyr hyn a phwy fydd yn ei baratoi? 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Fforwm Iaith Môn welcome the commitment that bilingual CIOs will be employed and funded. 2. Consideration should be given to the role of the partners of Fforwm Iaith Môn as providers of Welsh-medium services in the community. 3. There is potential for conflict to arise within communities, on various grounds including language.

¹⁴ Lyon, J. 1996. Becoming Bilingual: Language Acquisition in a Bilingual Community. Clevedon: Multilingual Matters.

	<p>6. Gwasanaethau iaith gymunedol - beth yw ystyr hyn? Offer cyfieithu? Darpariaeth gofal plant i drochi yn y Gymraeg? Neu fel arall a ydym yn dychwelyd i'r drefn gofal plant, sydd wedi colli ei thir ym Mon, o gael darpariaeth Saesneg a Chymraeg?</p> <p>7. Mae'r tensiynau posib all godi am resymau amrywiol gan gynnwys iaith, i ba raddau mae'r heddlu yn derbyn cefnogaeth i leihau'r tensiynau hyn gan sicrhau gweithlu dwyieithog i weithio yn y cymunedau yn gyfochrog a Swyddogion Cynnwys y Gymuned?</p> <p>Potential community conflict: "Linguistic conflicts due to divided ethnic and national loyalties are often bitter and violent. In recent years, there have been major incidents in several countries, such as India, Spain, Canada (Quebec), Belgium, the USA, South Africa, and the Celtic-speaking areas of Britain. The reasons for conflict vary greatly. In some cases, the use of a language is declining, and the reaction is a desperate attempt to keep it, and the community it represents, alive. ... One reason is that language provides a particularly clear link with the past – often the only detailed link, in the form of literature." (tud.303, 2006)¹⁵</p>	
<p>19. Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlfif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith hon. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ail ran mesur lliniaru ceir yma. Y cam cyntaf yw cynllunio rhagflaen gyda'r data a'r buddsoddiad yn cael ei ryddhau gan y datblygwyr rhagflaen er mwyn i'r darparwyr drefnu capasiti (gweler y sylwadau ar gyfer cam 13). Ail ran y lliniaru fydd parhau i fonitro ac ymateb yn barhaus ac rydym yn croesawu hyn. 2. Does dim ymrwymiad i fuddsoddi yma. Cefnogi fod hwn yn rhan o gytundeb 106, sy'n gytundeb cyfreithiol ond sut fydd y mudiadau eraill megis Mudiad Meithrin a Menter Iaith Mon yn cael mynediad at fuddsoddiad ariannol gwirioneddol. 3. Oes cronfa wrth gefn / yn ychwanegol i'r 106 er diben hyn? Ynteu gyfleu awydd i gydweithio yn unig sydd yma? Beth yw'r gweithdrefnau? 4. Mae derbyn y wybodaeth hon yn amserol yn hanfodol i gynllunio gwaith Menter Iaith Mon - does dim capasiti naturiol gan y Fenter i fod yn ateb y galw heb fuddsoddiad ychwanegol. Nid yw'n dwf naturiol yn y boblogaeth, mae'n ymateb uniongyrchol i ddatblygiad Wylfa Newydd, ac mae angen lliniaru effaith hynny yn ariannol. 5. Prif rôl Menter Iaith Môn ydi gwireddu Thema 2, Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru sef Cynyddu Defnydd y Gymraeg. Heb sicrwydd i'r camau hyn, gall y datblygiad danseilio a gwrthwneud gwaith a buddsoddiadau Mentrau, elusennau a 	<ol style="list-style-type: none"> 1. This represents the second part of a measure. The first part should be to forward plan with data with funding to be released by Horizon early on in order for providers to plan for sufficient capacity. The second part of the measure would be to monitor and respond continuously, and this is welcomed. 2. There is no commitment for investment in this measure. Acknowledge that this will form part of the DCO s.106, however, organisations such as Mudiad Meithrin and Menter Iaith Môn will need access to additional funding. 3. Sharing of information in a timely manner is essential in terms of capacity planning for Menter Iaith Môn as there is no natural capacity to respond without additional funding. 4. Yr Urdd play an important role in Wales in terms of its contribution to young people's lives, confidence and mental health.

¹⁵ 'How Language Works', David Crystal 2006

<p>Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny'n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>mudiadau ym Môn + ymroddiad partneriaid Fforwm Iaith Môn i Strategaeth Iaith Môn i gyrraedd 60% erbyn 2021.</p> <p>6. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang a berchir yng Nghymru. Erbyn hyn, mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers ei sefydlu yn 1922. Nid oes modd gor-bwysleisio pwysigrwydd y sefydliad yng Nghymru. Mae ei gyfraniad i genedlaethau yng Nghymru, i fywydau, hyder ac iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd, wedi bod yn anferth. A fydd PNH yn cefnogi ymdrechion Urdd Môn i barhau gyda'r weledigaeth uchod?</p> <p>7. Yn fras gall 9000 o weithwyr ar ynys o 70,000 boblogaeth ble mae 57% yn siarad Cymraeg olygu 10% yn fwy o siaradwyr di-Gymraeg gan wneud y Gymraeg yn iaith leiafrifol, am y tro cyntaf erioed. O ran datblygu ieithyddol mae cymuned gyda llai na 70% o siaradwyr Cymraeg yn galw am rhagweithio i gynnal yr iaith.</p> <p>8. Beth fydd rôl y Cydlynnydd Iaith a Diwylliant yma a pha rym fydd ganddo/i?</p> <p>9. Mae'r Fforwm yn cydnabod fod effeithiau cadarnhaol i'w hadnabod hefyd, ond heb ymrwymadau pendant gall danseilio a gwrthwneud gwaith a buddsoddiadau Mentrau, elusennau a mudiadau ym Môn dros y degawdau.</p>	<p>5. Communities with less than 70% Welsh speakers requires proactive approach to maintain the language.</p> <p>6. Fforwm Iaith Môn acknowledge that there are beneficial effects, however without firm commitments, it could undermine and undo the work and investment of enterprises, charities and organisations on Anglesey for the past decades.</p>
<p>20. Horizon i helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (pan fo hynny'n berthnasol i Wylfa Newydd Horizon) i alluogi mudiadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu'n effeithiol a thrafod materion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd y manylion yn cael eu</p>	<p>1. Ymddengys hwn yn gam lliniaru synhwyrol gan bwysu ar y datblygwr i gynnal y cyfarfodydd cyswllt yn y Gymraeg a chydabod mai ar gyfer y di-Gymraeg mae'r offer cyfieithu. Nid yw'n eglur a yw'r datblygwr hefyd yn cyllido gwasanaethau'r cyfieithydd, sef y brif gost dros amser.</p> <p>2. Bydd y Cynghorau Cymuned a mudiadau lleol yn croesawu defnydd o'r offer a'r gwasanaeth cyfieithu.</p> <p>3. Pryderwn fodd bynnag mai'r 'mater' a gyfeirir ato ar gyfer y mesur lliniaru hwn yw "lliniaru effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth" - nid ymddengys fod y mesur yn cyfateb i'r broblem yma, neu yn crafu'r wyneb yn unig. I ategu, nid yw'n ymddangos fod y datblygwr yn ymdrin â difrifoldeb y bygythiad i'r Gymraeg yn ein cymunedau</p> <p>4. 2001 - 60% o siaradwyr Cymraeg, 2011 - 57% o siaradwyr Cymraeg, buddsoddiad gan y llywodraeth, y sir, ag asiantaethau i wydroi'r canran ac anelu am 60.1% fel rhan o ymdrechion Cymraeg 2050. Ond yn awr mewnlifiad o hyd at 9,000 o bobl ddi-Gymraeg i'r ynys - mae'r raddfa heb ei weld erioed o'r blaen ac yn fygythiad gwirioneddol i ddyfodol yr iaith ar yr ynys. Nid yw offer cyfieithu yn gwneud</p>	<p>1. Fforwm Iaith Môn welcome that a Community Translation Service will be funded through the Draft DCO s.106. Fforwm Iaith Môn emphasise that Horizon should undertake engagement meetings in Welsh, and that translation facilities will be available for non-Welsh speakers.</p> <p>2. Community Councils and local organisations will welcome the use of facilities and translation service.</p> <p>3. This proposed measure will not mitigate the effect identified. Horizon is not dealing with the seriousness of the threat presented to the Welsh language. Offering a translation service does not provide justice to the effect of the migration of 9,000 non-welsh speakers to Anglesey.</p>

<p>cadarnhau adeiladu.</p> <p>cyn</p>	<p>cyfiawnhad a'r 'mater' dwys yma ac unwaith eto yn tansellio hygredded yr ymgynghoriad ar gynllunio ieithyddol i liniaru effaith y datblygiad ar ein treftadaeth.</p> <p>"How languages die...Cultural assimilation is an even bigger threat. Much of the present crisis stems from the major cultural movements which began 500 years ago, as colonialism spread a small number of dominant languages, such as English, Spanish, Portuguese, and French, around the world. When one culture assimilates to another, the sequence of events affecting the endangered language seems to be the same everywhere.</p> <p>There are three broad stages. The first is immense pressure on the people to speak the dominant language – pressure that can come from political, social, or economic sources. It might be 'top down', in the form of incentives, recommendations... But wherever the pressure has come from, the result – stage two is a period of emerging bilingualism, as people become increasingly efficient in their new language while still retaining competence in their old. Then, often quite quickly, this bilingualism starts to decline, with the old language giving way to the new. This leads to the third stage in which the younger generation becomes increasingly proficient in the new language, identify more with it, and finding their first language less relevant to their new needs. This often accompanied by a feeling of shame about using the old language, on the part of the parents as well as their children. Parents use the old language less and less to their children, or in front of their children; and when more children come to be born within the new society, adults find fewer opportunities to use that language to them. Those families which do continue to use the language find there are fewer other families to talk to...Outside the home, the children stop talking to each other in the language. Within a generation – sometimes even within a decade – a healthy bilingualism within a family can slip into a self-conscious semilingualism, and thence into a monolingualism." (tud.337, 2006)¹⁶</p>	
<p>21. Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Pwy fydd yr aelodaeth? 2. Hyd y gwelwn ni does dim 'Strategaeth', dim ond cyfres o fesurau. 3. I gyflawni'r Strategaeth? Ond mae nifer o'r mesurau lliniaru yn rhan o gytundeb 106 CSYM felly pa ddylanwad fydd gan y grŵp hwn ar weithdrefnau a gwariant y 106? 4. Pa rym fydd gan y Grŵp Rheoli i geisio dylanwadu ac effeithio rhai o benderfyniadau PNH? 	<ol style="list-style-type: none"> 1. There is no strategy, only a series of measures. A number of the mitigation measures are secured via the Draft DCO s.106 [REP3-042], therefore unclear what level of influence Horizon's internal management group will have on the measures secured in the Draft DCO s.106 [REP3-042]. 2. Regular reporting on the proportion (percentages) of Welsh speakers, Welsh Government's language strategy

<p>Gymraeg Corfforaethol Horizon.</p>	<p>5. Sut fydd y Cydlynnydd Iaith Gymraeg a Diwylliant yn gweithio gyda'r Grŵp hwn?</p> <p>6. Beth fydd y berthynas rhwng y Grŵp hwn a'r Grŵp o Randeiliaid Allanol (Rhif 22)?</p> <p>7. Fe ddylai adroddiadau rheolaidd ar ganrannau niferoedd siaradwyr iaith, Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru (Cymraeg 2050) a strategaethau iaith Gymraeg lleol berthnasol fod yn eitemau sefydlog ar yr agenda er mwyn rhoi cyd-destun ehangach i'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal.</p>	<p>and other relevant local language strategies should be standing agenda items, in order to provide wider context.</p>
